

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Cyllid Cymru

Mai 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8120
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor, ei aelodau, ei gylch gwaith a'i gyhoeddiadau blaenorol i'w chael yn: **<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229>**

Mae rhestr o dystion a thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn ar gael yn: **<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=5722>**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Cyllid Cymru

Mai 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae eu cylch gwaith hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd i oruchwyllo materion llywodraethau Swyddfa Archwilo Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Jocelyn Davies (Cadeirydd)

Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Peter Black

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Christine Chapman

Llafur Cymru
Cwm Cynon



Paul Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



Mike Hedges

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Alun Ffred Jones

Plaid Cymru
Arfon



Ann Jones

Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Julie Morgan

Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd / Crynodeb	5
Argymhellion y Pwyllgor	7
1. Cyflwyniad a Chefndir.....	10
Cefndir	10
Cyllid Cymru	10
Yr adolygiad o Fynediad at Gyllid	11
2. Yr Angen am Cyllid Cymru	14
Pennu lefel y bwlch mewn cyllid	14
Ystyried Cymorth Busnes gan Lywodraeth Cymru yn Ehangach	18
Yr Angen am Cyllid Cymru	21
3. Diffinio Rôl Cyllid Cymru	26
Cylch gwaith Cyllid Cymru - yr angen i'w ddiffinio	26
Atebolrwydd a'r Angen am Fwy o Graffu	29
4. Ffyrdd o Weithio Cyllid Cymru	31
Cyfraddau Llog	31
Cymorth gan y Wladwriaeth	36
Ardaloedd Menter	38
Cyfathrebu/marchnata.....	40
Perfformiad/tryloywder.....	43
Gwaith Cyllid Cymru y Tu Allan i Gymru	45
Hyblygrwydd o fewn Cyllid Cymru	47
Atodiad A: Tystion.....	49
Atodiad B: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig	50
Atodiad C: Brecwast Rhanddeiliaid Cyllid Cymru	54

Rhagair y Cadeirydd

Mae Cyllid Cymru wedi bod yn destun cryn drafod yn y cyfryngau yn ddiweddar, yn dilyn cyhoeddi adolygiadau Mynediad at Gyllid. Yn sgil yr ymchwiliad hwn, sicrhawyd y Pwyllgor bod Cyllid Cymru yn uchel ei barch yn y rhan fwyaf o'r sector busnes, yn ogystal ag ar draws y DU a thu hwnt. Gwelsom fod Cyllid Cymru, ar y cyfan, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi Cymru, ac mai'r hyn oedd ei angen oedd eglurhad o'i rôl a'i gylch gwaith yn hytrach na'i ailwampio'n llwyr.

Canfu'r Pwyllgor fod diffyg gwybodaeth am y bwlch cyllido ar gyfer busnesau yng Nghymru, a bod hynny'n effeithio ar yr hyn y mae pobl yn credu y dylai Cyllid Cymru ei wneud. I'r perwyl hwn, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â diffinio'r problemau sy'n wynebu busnesau o ran cael gafael ar gyllid. Mae hyn yn hanfodol er mwyn rhoi atebion priodol ar waith.

Gwelsom hefyd fod myrdd o ddisgwyliadau ar Cyllid Cymru ers ei sefydlu, nad oedd o reidrwydd o fewn ei gylch gwaith i'w cyflawni. Felly, rydym wedi argymhell bod y Gweinidog yn egluro rôl a chylch gwaith Cyllid Cymru.

Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd am Cyllid Cymru yn ymwneud â'i gyfraddau llog, a arweiniodd y Pwyllgor i ganolbwyntio'n bennaf ar ei fenthyciadau, yn hytrach na'i fuddsoddiadau ecwiti. Er bod cyfraddau llog Cyllid Cymru yn uwch na chyfartaledd y farchnad, roeddynt yn cael eu hasesu ar sail nifer o ffactorau gan gynnwys risg. O ran y mathau o fuddsoddiad a wnaed ganddo roeddent, gan mwyaf, gystal â'r farchnad, neu'n rhagori arni. Fodd bynnag, gallai cyfran sylweddol o'i fenthyciadau, o bosibl, fod wedi bod ar gael yn fasnachol ar gyfradd fwy cystadleuol.

Gwelsom fod mwy y gallai Cyllid Cymru ei wneud o ran lledaenu gwybodaeth am ei wasanaethau, a'u marchnata, ac rydym wedi argymhell bod mwy yn cael ei wneud yn y maes hwn. Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu am lefel y craffu allanol ar Cyllid Cymru, a thryloywder ei wybodaeth fonitro. Unwaith eto, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, gan gynnwys gofyn i Cyllid Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol, a bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu'n rheolaidd arno.

Roedd hwn yn ymchwiliad cadarnhaol a oedd yn dangos, er nad yw Cyllid Cymru yn berffaith, bod ynddo lawer i'w ganmol. Diolch i bawb a roddodd o'u hamser i ddarparu tystiolaeth i ni, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, a gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i lywio'r drafodaeth am gyllid mynediad ar gyfer busnesau bach a chanolig.

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd yr awenau wrth bennu maint y bwlch mewn cyllid rhwng banciau a busnesau bach yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr amcangyfrifon a wnaed gan yr Athro Dylan Jones-Evans drwy weithio gyda chyrff fel Cymdeithas Bancwyr Prydain a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau er mwyn gwella data ar gymorth ariannol i fusnesau sy'n benodol i Gymru. Yna dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i gynllunio ymateb Llywodraeth Cymru i unrhyw fwlch mewn cyllid. Fodd bynnag, mae angen i bob rhanddeiliad gydnabod mai dim ond cyfraniad bach y gall Cyllid Cymru ei wneud i ymdrin â'r bwlch mewn cyllid. (Tudalen 18)

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pob cangen o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am fusnes yn gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig er mwyn cefnogi busnesa u llai. Dylai hyn gynnwys cydweithio â banciau er mwyn gwella dogfennau cais a chynlluniau busnes. Dylid hefyd gyflwyno system glir ar gyfer atgyfeirio'r busnesau hynny y gwrthodir rhoi cyllid iddynt gan y banciau neu Cyllid Cymru. Dylid rhoi arwyddion clir a chynnar i fusnesau o'u cymhwysedd am gymorth gan raglenni unigol y llywodraeth. (Tudalen 21)

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod unrhyw newidiadau a wneir i Cyllid Cymru yn adeiladu ar ei sgiliau a'i seilwaith presennol, ac nad ydynt yn niweidio'r enw da y mae wedi'i ddatblygu. (Tudalen 25)

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro nodau a chylch gwaith Cyllid Cymru. Dylai'r rhain amlinellu'r cydbwysedd rhwng ei ddwy rôl sef cyflawni elw masnachol a chyfrannu at ddatblygu economaidd. Ni ddylai'r amcanion fod yn rhy ragnodol,

ond dylent alluogi Cyllid Cymru i gynnal strwythur hyblyg a all gael ei deilwra i reoli cronfeydd newydd. Dylai hefyd gael ei weld yn gyfle i fireinio diben Cyllid Cymru a chyfleu hyn i bob rhanddeiliad.
(Tudalen 28)

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cyllid Cymru yn destun lefelau tebyg o graffu i gyrff cyhoeddus eraill a gaiff arian cyhoeddus. Ni ddylai hyn effeithio ar annibyniaeth Cyllid Cymru wrth wneud penderfyniadau buddsoddi. Dylai Cyllid Cymru gyflwyno ei adroddiad blynyddol a chyfrifon i bwyllgor perthnasol o'r Cynulliad er mwyn craffu arnynt bob blwyddyn.
(Tudalen 30)

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cyllid Cymru yn cynnal adolygiad o'i arferion gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni i BBaChau. Er mwyn llywio hyn, argymhellwn fod arolwg annibynnol o BBaChau yn cael ei gomisiynu er mwyn pennu ymwybyddiaeth o'r farchnad a phryderon ynghylch Cyllid Cymru.
(Tudalen 31)

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cyllid Cymru yn rhoi eglurhad pellach i fusnesau o'r strategaethau ar gyfer pob un o'i gronfeydd. Dylai hyn egluro, er bod Cyllid Cymru yn ceisio pontio methiant yn y farchnad o ran benthyca gan fanciau, ei fod hefyd yn gorfod gwneud elw masnachol er mwyn rhoi cyfrif am y risgiau y mae'n eu cymryd wrth fenthyca. Dylai'r cyfraddau llog nodweddiadol a'r ffioedd y mae'n eu codi ar fenthyciadau, ynghyd â'i bolisiau benthyca eraill, fod yn fwy tryloyw a chael eu rhoi i fusnesau cyn iddynt ystyried gwneud cais.
(Tudalen 36)

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth ddylunio cronfeydd yn y dyfodol, fod Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru yn sicrhau bod digon o hyblygrwydd i addasu cyfraddau llog a manteisio ar eithriadau cymorth gan y wladwriaeth. Yna, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, dylid cynllunio ar gyfer costau gostwng cyfraddau llog o bosibl er mwyn sicrhau bod digon o gymorth ariannol ar gael.
(Tudalen 40)

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru yn adolygu eu strategaeth ar gyfer cyfathrebu â busnesau. Dylid datblygu partneriaethau â banciau, cyfryngwyr a grwpiau sy'n cynrychioli busnesau fel y gellir marchnata cronfeydd newydd yn effeithiol.
(Tudalen 43)

Argymhelliad 10. Fodd bynnag, ni ddylai'r rhwydweithiau hyn gael eu hystyried yn 'borthgeidwaid' mynediad at Cyllid Cymru. Felly, argymhellir bod Cyllid Cymru yn gwella ei allu i gyfathrebu'n uniongyrchol â darpar fenthycwyr, yn enwedig busnesau bach.

(Tudalen 43)

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cyllid Cymru yn mabwysiadu'r un lefelau o dryloywder o ran ei berfformiad â'r hyn a welir mewn cyrff cyhoeddus eraill. Dylai'r adroddiadau monitro a gwerthuso y mae'n eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill gael eu cyhoeddi. Hefyd dylid darparu gwybodaeth ar ei wefan am berfformiad buddsoddiadau, creu swyddi, cyllid a meini prawf dyfarnu. Dylai gwybodaeth am berfformiad hefyd fod wrth wraidd adroddiad blynyddol a chyfrifon newydd a manylach. Cred y Pwyllgor yn gryf, er y bydd y fath dryloywder yn anochel yn arwain at beth beirniadaeth ar adegau, bydd hefyd yn ffordd ardderchog o ddangos llwyddiannau Cyllid Cymru.

(Tudalen 45)

1. Cyflwyniad a Cefndir

1. Cytunodd y Pwyllgor Cyllid y byddai'n cynnal ymchwiliad i weithrediad presennol Cyllid Cymru a'i rôl yn y dyfodol yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2013.
2. Cylch gorchwyl y Pwyllgor oedd ystyried:
 - perfformiad cyfredol a chyflawniadau blaenorol Cyllid Cymru;
 - sut mae gweithgareddau Cyllid Cymru yn cyfrannu at ymagwedd gyffredinol Llywodraeth Cymru tuag at ddatblygu economaidd yng Nghymru;
 - yr opsiynau sydd gan Lywodraeth Cymru o ran pennu cyfeiriad strategol Cyllid Cymru at y dyfodol.
3. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad fel rhan o'i ymchwiliad a cheir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad B. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad allgymorth gyda Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) ar 22 Ionawr 2014 a chaiff nodyn amdano ei gynnwys yn Atodiad C.
4. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan amrywiaeth o dystion dros bedair sesiwn dystiolaeth (Atodiad A). Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r Pwyllgor ac yn gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Cefndir

Cyllid Cymru

5. Mae Cyllid Cymru yn gwmni cyhoeddus a gafodd ei greu yn 2001 er mwyn darparu cyllid i BBaChau yng Nghymru. Yn wreiddiol, roedd Cyllid Cymru yn atebol i Awdurdod Datblygu Cymru nes i swyddogaethau'r corff hwnnw gael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2006. Yn dilyn hynny, mae Cyllid Cymru wedi adrodd i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a Llywodraeth Cymru yw'r unig gyfranddaliwr.
6. Mae Cyllid Cymru yn rheoli gwerth £200 miliwn o fuddsoddiadau yng Nghymru o bedair cronfa fyw:

- Cronfa JEREMIE¹ Cymru sy'n werth £150 miliwn - cronfa BBaChau, a lansiwyd yn 2009 ac a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Banc Buddsoddi Ewrop a Llywodraeth Cymru;
- Cronfa Fuddsoddi BBaChau Cymru sy'n werth £40 miliwn - cronfa microfusnesau a BBaChau a ariennir gan Barclays a Llywodraeth Cymru;
- Cronfa Fenthyciadau i Ficro-fusnesau Cymru sy'n werth £6 miliwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru (rheolir £1 filiwn ohoni gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru er mwyn cefnogi mentrau cymdeithasol);
- Cronfa Datblygu Eiddo Cymru sy'n werth £10 miliwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

7. Mae Grŵp Cyllid Cymru yn cynnwys dau is-gwmni sef 'FW Capital' a 'Xenos'. Mae FW Capital yn cyflawni rôl rheolwr cronfeydd o swyddfeydd yng ngogledd Lloegr ac mae wedi rheoli cronfeydd lleol yng ngogledd-orllewin a gogledd-ddwyrain Lloegr ers 2010. Xenos yw rhwydwaith Angel Busnes Cymru a sefydlwyd yn 1997 ac sy'n cysylltu busnesau â ffynonellau posibl o gyngor a chyllid.

Yr adolygiad o Fynediad at Gyllid

8. Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (y Gweinidog) adolygiad annibynnol o'r cyllid sydd ar gael i BBaChau yng Nghymru ar 16 Ionawr 2013 er mwyn ystyried y canlynol:

"Mae cael at gyllid allanol i ddechrau busnes a buddsoddi ar gyfer twf mewn busnesau yng Nghymru yn hanfodol i dwf economaidd cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i sicrhau bod BBaChau yng Nghymru yn gallu cael at y cyllid sydd ei angen arnynt i gynnal eu gwaith cyfredol, yn ogystal â chefnogi eu dyheadau i ehangu."²

9. Penododd y Gweinidog yr Athro Dylan Jones-Evans o Brifysgol Gorllewin Lloegr i arwain yr Adolygiad o Fynediad at Gyllid ('yr Adolygiad'). Yn ystod yr ymchwiliad hwn roedd yn syndod gan y

¹ Cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer Busnesau Micro i Ganolig

² Llywodraeth Cymru, [Gweinidog yn lansio adolygiad i gyllid busnes i Fusnesau Bach a Chanolig \(BBaChau\) yng Nghymru](#), 16 Ionawr 2013

Pwyllgor glywed bod yr Athro Jones-Evans yn gyn-Aelod o Fwrdd Cyllid Cymru.

10. Nod yr adolygiad oedd ystyried pa mor effeithiol yw ffynonellau cyllido presennol o ran diwallu anghenion BBaChau yng Nghymru, nodi meysydd sy'n peri her benodol a gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu. I gychwyn, nid oedd yn fwriad cynnal adolygiad penodol o Cyllid Cymru gan mai dim ond tua 5 y cant o'r hyn a ddarperir gan fanciau'r stryd fawr a fenthycir ganddo i BbaChau.³

11. Cafodd yr adolygiad ei gynnal ar ddau gam. Edrychodd y cam cyntaf ar y graddau y mae banciau'r stryd fawr yn diwallu anghenion cyllido busnesau yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ofynion BBaChau. Ystyriodd yr ail gam ffynonellau cyllido amgen a'r rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae yn y gwaith o hwyluso eu datblygiad.

12. Gwnaeth adroddiad Cam Un ddau argymhelliad a oedd yn ymwneud yn benodol â Cyllid Cymru:⁴

- Finance Wales has had a positive impact on formal equity investment within the Welsh business community. However, the Welsh Government needed to consider how it builds on this success, especially in terms of having a specific vehicle for equity funding in the future. It also needed to develop programmes that created demand for venture capital not only for new start-up businesses but also growth firms where equity investment is key for further development.
- As the sole shareholder, Welsh Government needed to determine the future strategic direction of Finance Wales and, more importantly, the role it should play in the future financial landscape for Welsh business alongside other providers.

13. O ystyried y canfyddiadau yn adroddiad Cam Un, gofynnodd y Gweinidog am i Gam Dau o'r adolygiad edrych ar strategaeth Cyllid Cymru o ran cefnogi BBaChau yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar gost benthyca.⁵

³ Yr Athro Dylan Jones-Evans, [Access To Finance Review – Stage 1 Report](#), Mehefin 2013

⁴ Yr Athro Dylan Jones-Evans, [Access To Finance Review – Stage 1 Report](#), Mehefin 2013

⁵ Yr Athro Dylan Jones-Evans, [Access To Finance Review – Stage 2 Report](#), Tachwedd 2013

14. Cafodd adroddiad Cam Dau ei gyhoeddi ar 12 Tachwedd 2013. Gwnaeth argymhellion ynghylch cyllid gan y banciau, ffynonellau cyllido amgen a chynigiodd fodel amgen ar gyfer cymorth sector cyhoeddus sef Banc Datblygu Cymru.

15. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys rhai canfyddiadau penodol ynghylch Cyllid Cymru:

- According to data submitted to the review, Finance Wales is offering higher rates of interest on borrowing to SMEs within Wales than it needs to under European Commission (EC) State Aid guidelines.
- The evidence gathered also suggests that Finance Wales has not utilised the full range of financial instruments available under EC regulations. For example, with two thirds of Wales classified as qualifying for the highest level of aid, General Block Exemption Regulation (GBER) could have been used to subsidise the interest rates on loans to hundreds of SMEs and been a significant policy tool for Welsh Government. In addition, there is no state aid impediment to Finance Wales offering cheaper loans to the vast majority of micro-businesses under de minimis regulations if it so wished.
- It remains unclear as to whether Finance Wales is still essentially operating as a commercially oriented fund manager in all but name.

16. Mewn datganiad i'r Cyfarfod Llawn, croesawodd y Gweinidog yr adroddiad a lansiodd ymgynghoriad byr ar weithredu'r amryw argymhellion⁶ (a barodd tan 6 Rhagfyr 2013).

⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Datganiad: Adolygu'r Cyllid sydd Ar Gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Ail Adroddiad](#), 12 Tachwedd 2013

2. Yr Angen am Cyllid Cymru

17. Er mwyn helpu BBaChau i gael gafael ar gyllid, rhaid yn gyntaf bennu natur y problemau sy'n wynebu busnesau yng Nghymru. Felly, wrth ystyried swyddogaethau a pherfformiad Cyllid Cymru, ceisiodd y Pwyllgor bennu a oedd methiant yn y farchnad o ran ariannu BBaChau ac unrhyw faterion eraill a oedd yn wynebu'r sefydliadau hyn. Mae'r bennod hon yn ystyried y materion hyn.

Pennu lefel y bwlch mewn cyllid

18. Sefydlwyd Cyllid Cymru yn wreiddiol yn 1999 i ymdrin yn rhannol â'r bwlch mewn cyllid ar gyfer BBaChau. Eglurodd Siân Lloyd Jones, Prif Weithredwr Cyllid Cymru, i'r Pwyllgor fod Cyllid Cymru yn:

“...joint policy initiative between the Welsh Government of the day, the Confederation of British Industry and the Federation of Small Businesses, partly in response to the withdrawal of people like 3i from Wales and the fact that there was a gap in the market in terms of funding for SMEs.”⁷

19. Nid oedd fawr ddim dadlau ymhlith y tystion bod busnesau yng Nghymru yn wynebu bwlch mewn cyllid o hyd, a waethygodd ar ôl argyfwng y banciau yn 2008. Pan ofynnwyd a oedd methiant yn y farchnad, dywedodd Peter Wright, Cyfarwyddwr Buddsoddi Strategol o Cyllid Cymru wrth y Pwyllgor:

“I would say, ‘absolutely’, Chair, and it is much more noticeable, obviously, since 2008, when what is now called the banking crisis came about. Prior to that time, there was some supply, and probably some parties would say that there was an excess of supply and that the banks did too much, particularly in certain sectors of the economy, with property being one example.”⁸

20. Serch hynny, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith nad oedd mynediad at gyllid yn ddarlun cyson yn gyffredinol. Dadleuodd Alistair Wardell, Partner/Cynghorydd o Grant Thornton UK LLP:

⁷ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 21

⁸ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 37

“... my opinion would be that, across the board, businesses have found it difficult at the smaller end. It is more difficult to access finance than at the bigger end, but that is my opinion.”⁹

21. Mae hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor drwy gydol yr ymchwiliad. Yn y digwyddiad allgymorth i BBaChau, clywsom fod busnesau bach sydd ond angen ychydig bach o gyllid yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i fenthyciwr priodol.

22. Hefyd, dywedodd Alistair Wardell wrth y Pwyllgor:

“On expansions, my view would be that, if you had a good business with a good business plan, there is decent access to finance.”¹⁰

23. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y fath deimlad yn cael ei wireddu. Credwn y dylai fod cyllid ar gael i'r holl fusnesau hynny sydd â chynllun busnes ymarferol, da.

24. Er i'n tystion dderbyn yn eang fod bwlch yn bodoli, bu cryn drafod ynghylch maint y bwlch mewn cyllid. Amcangyfrifodd Rhan Dau o adolygiad Mynediad at Gyllid fod cyfanswm y bwlch mewn cyllid i fusnesau yng Nghymru yn cyfateb i:

“...around £500 million per annum for those businesses who want to get access to funding but have been refused support by the banks in Wales.”¹¹

25. Gofynnodd y Pwyllgor i'r tystion a oeddent yn cydnabod y ffigur hwn. Dywedodd Iestyn Davies o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wrth y Pwyllgor ei fod yn credu:

“... it would seem consistent. If you think about the fact that there are around 214,000 SMEs in Wales and you think, ‘Well, okay, what kind of finance, across the board, are they looking for?’, it would not take a lot of requirement for lending, borrowing or some sort of capital injection to reach that kind of figure. Ultimately, we have to rely on Dylan Jones-Evans’s work—we are not experts in this field—but it would seem consistent with reports that we have heard from other

⁹ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 217

¹⁰ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 235

¹¹ [Access to Finance Review Stage 2 Review](#), Yr Athro Dylan Jones-Evans, Tachwedd 2013

academics. Most recently, we worked with Professor Kent Matthews from Cardiff Business School. So, whether or not it is £500 million exactly, there does seem to be a considerable shortfall.”¹²

26. Fodd bynnag, nid oedd Alistair Wardell yn argyhoeddedig ynghylch y canfyddiadau yn yr adolygiad o lefel y bwlch. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

“The reality is that I would have to do a lot of work and analysis to justify that, or to understand that number. It sounds very high to me, but without doing detailed analysis and looking at it, I could not comment further.”¹³

27. Hefyd dadleuodd:

“I guess that it depends on what problem you are trying to solve. I am not utterly convinced that there is a problem of the scale that you seem to be trying to solve.”¹⁴

28. Un o'r prif broblemau a wynebwr wrth bennu maint y bwlch yw'r ffaith bod diffyg gwybodaeth ariannol sy'n benodol i Gymru. Dywedodd Dylan Jones-Evans wrth y Pwyllgor:

“...it was enormously difficult to get any data from the banks. In fact, we got no data from the banks directly, despite trying for several months to get actual data on accounts. I know that there has been pressure put on now and that they have to publish postcode data, but I will just mention something strange around this: the BBA publishes sectoral data every month and regional data every quarter, but I could not get, for example, lending to manufacturing companies in Wales from that data, even though it is the same data set. They said that they could not do it.”¹⁵

29. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am hyn, oherwydd mae'n hanfodol bod gan Gymru ddata cywir er mwyn nodi unrhyw bryderon penodol ac ymdrin â hwy.

¹² CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 40

¹³ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 249

¹⁴ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 256

¹⁵ CyT, Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2014, paragraff 284

30. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod natur y sector ariannol yn golygu bod bylchau yn newid yn barhaus. Er enghraifft, dywedodd Siân Lloyd Jones wrthym:

“Also, the gaps change, in terms of the nature of the financial provision. So, based on our experiences elsewhere—and we have seen it in Wales as well—there is a gap for what we have described as a working capital fund, which was not something that was in evidence in 2007-08, when we secured the JEREMIE fund.”¹⁶

31. At hynny, clywodd y Pwyllgor nifer o awgrymiadau bod nifer sylweddol o BBaChau, yn enwedig rhai newydd, na fyddent yn dymuno cael cyllid. Dosberthir y grŵp hwn fel anfenthycwyr parhaol neu fodlon. Nododd SME Finance Monitor 2013: Annual Report¹⁷ o blith y BBaChau a gyfwelwyd roedd 37% yn anfenthycwyr parhaol a gallai 75% gael eu dosbarthu'n rhai sy'n hapus i beidio â cheisio cyllid¹⁸. Mae'n bwysig nodi'r rhain wrth geisio pennu union natur y bwlch.

32. Er nad yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod y ffigur o £500 miliwn yn gywir o ran y bwlch mewn cyllid, mae'n fan cychwyn da a chredwn fod problem mewn perthynas â faint o gyllid sydd ar gael.

33. Ym marn y Pwyllgor, y cam cyntaf wrth ymdrin ag unrhyw broblemau gan gynorthwyo BBaChau yw pennu p'un a oes methiant yn y farchnad a beth yn union yw'r bwlch. Heb fod yn eglur ynghylch hyn, mae'n anodd pennu union swyddogaethau Cyllid Cymru. Wrth wneud hyn rhaid cymryd camau i ymdrin â'r diffyg data cymharol yng Nghymru hefyd.

34. At hynny, mae angen i gyflwr y farchnad gael ei adolygu'n rheolaidd ac mae angen iddo esblygu a newid wrth i'r gwahanol broblemau ac arferion yn y sector cyllid ddod i'r amlwg. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod economi Cymru yn gallu addasu ac ymateb.

¹⁶ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 42

¹⁷ www.sme-finance-monitor.co.uk/

¹⁸ Diffiniad o'r rhai sy'n hapus i beidio â cheisio cyllid - y rhai sy'n dweud na wnaethant gais am gyfleuster yn y 12 mis cyn cael cyfweiliad ar gyfer SME Finance Monitor ac nad oeddent yn dymuno gwneud cais ychwaith.

35. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf nad yw Cyllid Cymru yn gyfrifol am lenwi'r holl fwllch o ran cyllid BBaChau, er bod ganddo rôl yn ei gau. Credwn y dylai fod gan y Gweinidog strategaeth glir ar gyfer sut i ymdrin â'r bwlch hwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd yr awenau wrth bennu maint y bwlch mewn cyllid rhwng banciau a busnesau bach yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr amcangyfrifon a wnaed gan Dylan Jones-Evans drwy weithio gyda chyrff fel Cymdeithas Bancwyr Prydain a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau er mwyn gwella data ar gymorth ariannol i fusnesau sy'n benodol i Gymru. Yna dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i gynllunio ymateb Llywodraeth Cymru i unrhyw fwllch mewn cyllid. Fodd bynnag, mae angen i bob rhanddeiliad gydnabod mai dim ond cyfraniad bach y gall Cyllid Cymru ei wneud i ymdrin â'r bwlch mewn cyllid.

Ystyried Cymorth Busnes gan Lywodraeth Cymru yn Ehangach

36. Yn ogystal â chael gafael ar gyllid, clywodd y Pwyllgor mai her sylweddol arall a wynebai busnesau yng Nghymru oedd cael a defnyddio cyngor a chymorth busnes ehangach er mwyn helpu gyda phethau fel datblygu cynlluniau busnes. Cafwyd sawl enghraifft o fusnesau a oedd angen '*ychydig bach*' o gymorth ychwanegol o ran eu cynlluniau a'u dogfennaeth fusnes er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyllid gan fasnachwyr masnachol neu Cyllid Cymru.

37. Dywedodd Peter Umbleja o Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) wrth y Pwyllgor:

"I also think that a challenge is access to finance, which is one of the reasons why we are here today. However, the development of the individual businesses and the business owners themselves, and building up their skills so that they can run their own business, I think, is also quite important."

38. Nododd Rhan Un o adroddiad adolygiad Mynediad at Gyllid fod angen sicrhau gwell cysylltiad rhwng banciau'r stryd fawr a chymorth busnes Llywodraeth Cymru. Dywedodd Dylan Jones-Evans wrth y Pwyllgor, wrth ymdrin â'r rhai y gwrthodwyd rhoi cyllid iddynt, fod y banciau yn:

“...mainly ... write a letter and tell them that they cannot fund them, and give the reasons, such as the business plan not being strong enough, and that is it. One of the things that we suggested was that all the banks, as well as organisations such as Finance Wales and other funders, should pool all of those businesses, working with the Welsh Government. Some of those businesses probably will not get anywhere, but let us assume that a third do, and they start a business based on that, and get the funding; that could be 1,000 jobs created every year.”¹⁹

39. Dadleuodd Iestyn Davies fod angen siop un stop ar gyfer busnesau:

“Again, we would be supportive, as we were back some two-and-a-half years ago, of the principle of the one-stop shop. That does not mean that that is always going to work effectively, but let us bring this together and make a very clear offer to individuals. ... Clearly, many of our members do not need a complicated range of services. What they need is what is often referred to as ‘vanilla products’, the basic, standard services that you need in order to address financial exclusion. ... It is a bit of a jump to go from having no banking experience, or no access to banking, to trying to be economically active.”²⁰

40. Ni chlywodd y Pwyllgor dystiolaeth uniongyrchol ar Busnes Cymru ac nid yw o'r farn bod angen ei drawsnewid yn llwyr, nid lleiaf am ein bod yn cydnabod ei fod yn endid cymharol newydd (fe'i lansiodd ym mis Ionawr 2013)²¹ a bod y maes hwn wedi wynebu cryn dipyn o newid dros y blynyddoedd diwethaf.²² Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng Busnes Cymru, y sector banciau a Cyllid Cymru yn ddigon cryf i ddarparu gwasanaeth di-dor i fusnesau Cymru.

41. Comisiynodd y Gweinidog Robert Lloyd-Griffiths, cyfarwyddwr Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru a Chadeirydd Bwrdd Strategol Busnes Cymru, i arwain adolygiad o'r ffordd orau o sicrhau bod cymorth anariannol Llywodraeth Cymru yn ategu cymorth ariannol i fusnesau yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

¹⁹CyT, Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2014, paragraff 299

²⁰ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 145

²¹ Ymateb Ysgrifenedig, FIN(4) FW070a

²² Ymateb Ysgrifenedig, FIN(4) FW073

- Archwilio natur y cymorth ariannol ac anariannol sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru a Cyllid Cymru, ynghyd â'u mathau, er mwyn nodi unrhyw fylchau mewn gwasanaethau ar gyfer BBaChau;
- Ystyried a ddylai Busnes Cymru gynnig adnoddau cyllid ar ran Cyllid Cymru neu Fanc Datblygu i Gymru;
- Nodi'r cyfleoedd i weithio'n fwy effeithiol â Cyllid Cymru, mentrau cymorth ariannol eraill Llywodraeth Cymru a'r sector preifat er mwyn osgoi dyblygu, gwella gwasanaethau a chanlyniadau a chynnig dull unedig o weithredu ar gyfer BBaChau;
- Ymchwilio i'r gwasanaethau sydd ar gael y tu allan i Lywodraeth Cymru a allai ychwanegu gwerth i'r cymorth anariannol a gynigir gan Lywodraeth Cymru a sut y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn cynnig y budd mwyaf i fusnesau Cymru;
- Gwneud awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau cymorth newydd a fyddai'n cyd-fynd â chymorth Llywodraeth Cymru a Chyllid Cymru, gan helpu i wneud y buddsoddiadau hyn yn fwy llwyddiannus, a sut y gallent gael eu cyflwyno yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith economaidd fwyaf posibl;
- Gweithio gyda thîm y Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol er mwyn ystyried sut y gallai rhai o'r argymhellion penodol yn yr adolygiad o fynediad at gyllid gael eu cynnwys fel rhan o'r cymorth ariannol ac anariannol sydd ar gael i BBaChau yng Nghymru;
- Ystyried yn benodol faterion cefnogi cyfalaf gweithio a phrisio cwmnïau, gan gynnwys asedau anniriaethol a phrynu cwmni gan ei gyflogeion;
- Ceisio cyngor ac ymgysylltu â'r gymuned fusnes, Sectorau Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod yr adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei arwain gan fusnesau.²³

42. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd yr adroddiad ar yr adolygiad hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2014, gyda chynllun gweithredu sy'n nodi sut yr eir i'r afael â'r materion hyn. Mae'r

²³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW081

Pwyllgor yn gobeithio y bydd y cynllun gweithredu a gaiff ei lunio yn ymdrin â'r pryderon a godir fel rhan o'n hymchwiliad. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gall fod rhywfaint o werth mewn ystyried hyn gan y Pwyllgor Menter a Busnes cyn diwedd y pedwerydd Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pob cangen o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am fusnes yn gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig er mwyn cefnogi busnesau llai. Dylai hyn gynnwys cydweithio â banciau er mwyn gwella dogfennau cais a chynlluniau busnes. Dylid hefyd gyflwyno system glir ar gyfer atgyfeirio'r busnesau hynny y gwrthodir rhoi cyllid iddynt gan y banciau neu Cyllid Cymru. Dylid rhoi arwyddion clir a chynnar i fusnesau o'u cymhwysedd am gymorth gan raglenni unigol y llywodraeth.

Yr Angen am Cyllid Cymru

43. Er gwaethaf rhai anawsterau yn diffinio'r problemau a wynebir gan BBaChau yn llawn, cafwyd cytundeb eang gan bob tyst bod angen Cyllid Cymru neu sefydliad tebyg. Dywedodd Iestyn Davies wrth y Pwyllgor "...it clearly has a role to play".²⁴

44. Bu cryn drafod yn y cyfryngau ynghylch Cyllid Cymru a ph'un a yw'n cyflawni ei amcanion. Noda'r Pwyllgor fod cryn dipyn o'r sylwadau negyddol yn ymddangos fel petaent wedi deillio o'r dryswch adeg creu Cyllid Cymru, gyda phobl wahanol yn disgwyl pethau gwahanol ganddo. Derbyniodd y Pwyllgor ystod eang o dystiolaeth o blaid Cyllid Cymru a'i swyddogaethau.

45. Dywedodd Alistair Wardell wrth y Pwyllgor:

"My personal view is that we are fortunate to have an organisation like Finance Wales in Wales. I spoke to one of my colleagues in Birmingham yesterday to find out what the perception was from outside Wales, and he said, 'We would love to have an organisation like Finance Wales here, because we don't have that. We have the lenders, the asset-based lenders, the angel investors, but we don't have an organisation like Finance Wales.'"²⁵

46. Tra dywedodd Peter Umbleja:

²⁴ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 47

²⁵ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 249

“The reality is that, for a number of years, while the banks were effectively closed for business, I suppose, to the SME sector, because they were repairing their own balance sheets—I think that is the way in which it has been said—Finance Wales was the white knight that carried on lending to businesses. It has learned a lot over that period and has matured, and I just think that it is doing a good job.”²⁶

47. Yn ystod digwyddiad allgymorth BBaChau y Pwyllgor, clywodd am rai profiadau negyddol mewn perthynas â Cyllid Cymru, ond cafwyd cryn gefnogaeth iddo a rhwystredigaeth ynghylch y sylw negyddol a roddwyd i Cyllid Cymru. Dywedodd un unigolyn wrthym fod y dyfalu ynghylch Cyllid Cymru fel petai Cymru yn saethu ei hun yn ei throed unwaith eto tra roedd eraill yn credu'n gryf y dylai'r sefydliad fod wedi cael mwy o gymorth.

48. Ategwyd y farn hon gan nifer o ymatebion i ymgynghoriad ysgrifenedig y Pwyllgor. Nododd llawer ohonynt nad oeddent yn credu y byddai eu busnesau'n bodoli heb Cyllid Cymru. Dywedodd Andrew Michelman o Grŵp MiE:

“I do not believe that this company would have achieved the success it has, or be located in Wales, had it not been for the investment provided by Finance Wales.”²⁷

49. Tra dywedodd John Geraint, Cyfarwyddwr Creadigol Green Bay Media:

“Finance Wales, because of its unique constitution and nature, has brought us a number of ‘added values’ (such as advice, expertise, intelligence and experience of the broader financial, regulatory and governmental landscape within which we operate) which it is unlikely we could have sourced without considerable cost from any other commercial partner.”²⁸

50. Fel amod cael cyllid, mae Cyllid Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod busnes wedi'i leoli yng Nghymru, sy'n cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru a'i swyddi. Dywedodd Dr Chris Tackaberry o Clinithink wrth y Pwyllgor:

²⁶ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth, paragraff 295

²⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW003

²⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW006

“...were it not for the opportunity to secure investment funding from Finance Wales, it is most unlikely that the company would have established its R&D [Research and Development] operation in Wales. The investment funding contributed by Finance Wales enabled us to raise over three times that amount in inward investment in Wales, creating high value technology jobs.”²⁹

51. Dywedodd Christopher Rowlands, aelod o Fwrdd Cyllid Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Buddsoddi Cyllid Cymru, wrth y Pwyllgor:

“We reviewed, just yesterday, a fantastic array of start-up businesses in, particularly, the technology area. Twelve of those businesses were not in Wales, and as a direct consequence of Finance Wales’s intervention, those 12 business have been moved—lock, stock and proverbial—to Wales, from Oxford, Cambridge, south-east England and all over the place, which I think is a great demonstration of our *raison d'être*...”³⁰

52. At hynny, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gadarnhaol am y canfyddiad o'r sefydliad yn y DU a thu hwnt. Dywedodd John Handley, Prif Swyddog Buddsoddi Finance Birmingham:

“Our model was very much based on the approach adopted by Finance Wales who have used the benefit of scale, experienced professionals and blended return to ensure that considered lending and investment decisions are made to suitable qualifying companies and where the risk is priced accordingly. This to my view is a highly sensible and professional approach recognising the huge inherent risks of lending and investing in the SME space.”³¹

53. Dywedodd Robert Hunter, Cyfarwyddwr Cyllid yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth:

“...the European Investment Bank’s view is that Finance Wales is actually one of the best JEREMIE fund managers operating in

²⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW049

³⁰ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 63

³¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW001

the UK. It has also said that it is possibly one of the best in Europe.”³²

54. Fe'n hysbyswyd gan Christopher Rowlands, cyfarwyddwr annibynnol ar Fwrdd Cyllid Cymru:

“Finance Wales is held in very high regard by quite a number of organisations outside of Wales, such as the Scottish Government and the UK Government. I know that for a fact, because I have been told so directly to my face, given some of the reviews that I have been engaged in for the UK Government.”³³

55. Er i ni dderbyn cryn dipyn o dystiolaeth gadarnhaol o blaid Cyllid Cymru, rydym yn cydnabod bod rhai pobl wedi cael profiadau negyddol gyda'r sefydliad, a bod cyfleoedd bob amser i'w adolygu a gwella'r ffordd y mae'n gweithredu. Er enghraifft, yn y digwyddiad allgymorth i BBaChau clywodd y Pwyllgor sut roedd rhai cwmnïau wedi profi cryn oedi yn cael ymateb gan Cyllid Cymru, ac mewn un achos gallai'r penderfyniad fod wedi'i wneud ar y dechrau'n deg oherwydd nid oedd Cyllid Cymru yn ariannu'r math hwnnw o fusnes. Awgrymodd Eddie Hall o EBA Consulting Ltd fod nifer o broblemau gyda Cyllid Cymru fel:

“- In evaluating a proposal for finance, FW [Finance Wales] do not appear to take a commercial approach compared with the normal funders i.e. banks;

- Decision making process is slow and bureaucratic;
- Costs are high (rates);
- Access to experienced, knowledgeable and commercial individuals is difficult;
- There is now a lack of visibility of Finance Wales;
- I do not consider Finance Wales as an obvious source of lending.”³⁴

56. Wrth sôn am ei ganfyddiadau gyda rhanddeiliaid, dywedodd yr Athro Dylan Jones-Evans wrth y Pwyllgor fod y canfyddiad o Cyllid Cymru yn:

³² CyT, Pwyllgor Cyllid, 30 Ebrill, paragraff 36

³³ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth, paragraff 102

³⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW057

“... mixed. It depends who you speak to—you could speak to someone who had been turned down for a loan, for example.”³⁵

57. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r sylw diweddar yn y cyfryngau gael effaith negyddol bosibl ar Cyllid Cymru, ynghyd â hyder busnesau o fewn economi Cymru. I'r perwyl hwnnw, roeddem yn falch o gael sicrwydd gan y Gweinidog ynghylch dyfodol Cyllid Cymru a'i hyder ynddo.³⁶

58. Cred y Pwyllgor fod gan Cyllid Cymru ran werthfawr i'w chwarae a'i fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at Economi Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod unrhyw newidiadau a wneir i Cyllid Cymru yn adeiladu ar ei sgiliau a'i seilwaith presennol, ac nad ydynt yn niweidio'r enw da y mae wedi'i ddatblygu.

³⁵ CyT, Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2014, paragraff 318

³⁶ CyT, Pwyllgor Cyllid, 30 Ebrill 2014, paragraff 7

3. Diffinio Rôl Cyllid Cymru

59. Ar ôl penderfynu bod angen Cyllid Cymru, ceisiodd y Pwyllgor bennu meysydd y gellid eu gwella ar ei gyfer. Ynghyd â newidiadau i arferion gwaith Cyllid Cymru, a drafodir ym mhennod pedwar o'r adroddiad hwn, nododd y Pwyllgor fod angen rhoi mwy o gyfeiriad i Cyllid Cymru o ran diffinio ei rôl, a gweld a yw'n cyflawni ei amcanion.

Cylch gwaith Cyllid Cymru - yr angen i'w ddiffinio

60. Yn sgil y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod angen i rôl a chylch gwaith Cyllid Cymru gael eu hegluro. Clywsom amrywiaeth barn ynghylch beth yw Cyllid Cymru o fanc i reolwr cronfa i asiantaeth datblygu economaidd neu gymysgedd o'r rhain.

61. Amlinellodd Ian Johnson, Cadeirydd Bwrdd Cyllid Cymru ccc, rôl a chylch gwaith Cyllid Cymru, fel y'u nodwyd yn y trefniant rheoli sydd wedi bod ar waith ers trosglwyddo o Awdurdod Datblygu Cymru yn 2006:

“The company shall be managed as a group of commercial development funds to provide businesses in Wales with flexible and sustainable finance for their development. Its activities seek to address market failure in this area and stimulate new investment by the private sector.”³⁷

62. Ym marn cynrychiolwyr yn nigwyddiad allgymorth BBaChau y Pwyllgor roedd angen eglurder ynghylch ai lled-ddarparwr grantiau, asiantaeth datblygu economaidd neu fenthyciwr/endid masnachol awtonomaidd oedd Cyllid Cymru.

63. Cododd yr FSB bryderon gyda'r Pwyllgor ynghylch swyddogaeth ddatblygu Cyllid Cymru a'i allu i'w chyflawni. Dywedodd Iestyn Davies wrth y Pwyllgor:

“Clearly, it has a number of roles, but the one that we are most concerned with is the bit that is to do with start-up and development and addressing the structural failure of the market, particularly around support for SMEs and microbusinesses. ...However, that area, that development

³⁷ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth paragraff 16

function—the key here is this ‘D’ word, the development bank function—is the area where we have concerns. Not only is it poor in communicating that role and what individual businesses can expect, but in forming that relationship. Our experience has been that, sometimes, it can be quite fraught and it can be difficult for individual businesses to navigate its systems.”³⁸

64. Awgrymodd fod y methiant i gyflawni'r swyddogaeth hon yn deillio o'r ffaith bod Cyllid Cymru yn datblygu ac yn tyfu'n rhywbeth sy'n ymwneud yn bennaf â buddsoddiadau ecwiti, ac, felly, ‘we should not be surprised that it does not have the capacity currently to engage in the kind of work that we would like to see it do’.³⁹

65. Dywedodd Cyllid Cymru wrth y Pwyllgor fod yr amryw ddisgwyliadau yn ei gwneud hi'n anodd iddo fodloni pob rhanddeiliad. Eglurodd Siân Lloyd Jones:

“The underlying remit has not changed at all in its provision of commercial finance to small and medium-sized enterprises. Even in the early days—again, before my time—it was viewed as a development bank, and that was one of the challenges that it faced in terms of the expectations that were placed upon it by the different stakeholders. So, on the one hand, you had the commercial investors, Barclays, expecting us to return the borrowings to them; and, on the other hand, you had businesses and communities that thought that, as this was a publicly owned and partly publicly financed operation, it should be providing subsidised finance. So, when I arrived in 2004, it was failing on every metric; it was not satisfying any of the stakeholders; it was not performing from an investment point of view; and it was in breach of its bank covenant. So, it was a very difficult birth for the organisation, if I can put it like that, with that weight of expectation and that breadth of expectation.”⁴⁰

66. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, awgrymodd HWB Cymru y gallai peth o'r feirniadaeth ynghylch Cyllid Cymru gael ei phriodoli i gamddeall ei gylch gwaith:

³⁸ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 63

³⁹ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 65

⁴⁰ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 25

“Much of the criticism laid at the door of Finance Wales is often based on finance, which may well be needed, but they haven’t traditionally had the remit to provide. For example, until very recently, Finance Wales was unable to help with loans in the Business to Consumer market, yet they came under fire for something they could not achieve. Much of the Access to Finance report and criticisms from others could be viewed as a reason to expand the role of Finance Wales, rather than alter the structure.”⁴¹

67. Roedd yn glir o'r dystiolaeth a gafwyd nad yw rôl Cyllid Cymru yn cael ei deall yn llawn. Mae'r fath gamddealltwriaeth wedi deillio'n rhannol o ragdybiaethau sy'n bodoli eisoes ymhlith sefydliadau gwahanol ynghylch yr hyn a fyddai Cyllid Cymru pan y'i sefydlwyd.

68. Yn ogystal â nifer o ganfyddiadau gwahanol o Cyllid Cymru, mae'r Pwyllgor yn cydnabod nifer y gronfeydd ee cronfa Microfusnesau Cymru, JEREMIE, Cronfa Eiddo Cymru y mae Cyllid Cymru yn eu gweinyddu ar ran Llywodraeth Cymru. Cred y Pwyllgor fod yr ystod eang o gronfeydd a weinyddir gan Cyllid Cymru yn anochel yn golygu bod ganddo nifer o swyddogaethau ac amcanion gwahanol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r hyblygrwydd hwn ac ni fyddai am i unrhyw broses o ddiffinio rôl Cyllid Cymru fod yn rhy ragnodol ac, o bosibl, gyfyngu ar allu Cyllid Cymru i weinyddu gwahanol gronfeydd.

69. Ym marn y Pwyllgor gall llawer o'r sylwadau negyddol ynghylch Cyllid Cymru gael eu priodoli i wahanol ddisgwyliadau a osodir ar y sefydliad ar draws y sector. Credwn fod Cyllid Cymru, ar hyn o bryd, yn llwyddo i gydbwyso'r nod o ddod yn fwy cynaliadwy yn fasnachol â'i rôl yn datblygu'r economi, a ddylai helpu i sicrhau hirhoedledd ei gronfeydd.

70. Hoffai'r Pwyllgor i'r Gweinidog amlinellu nodau ac amcanion Cyllid Cymru yn glir. Wrth wneud hyn, credwn fod angen i natur amlochrog y sefydliad gael ei chydabod. Dylai hyn helpu i leihau'r dryswch sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro nodau a chylch gwaith Cyllid Cymru. Dylai'r rhain amlinellu'r cydbwysedd rhwng ei ddwy rôl sef cyflawni elw masnachol a chyfrannu at ddatblygu economaidd. Ni ddylai'r amcanion fod yn

⁴¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW073

rhy ragnodol, ond dylent alluogi Cyllid Cymru i gynnal strwythur hyblyg a all gael ei deilwra i reoli cronfeydd newydd. Dylai hefyd gael ei weld yn gyfle i fireinio diben Cyllid Cymru a chyfleu hyn i bob rhanddeiliad.

Atebolrwydd a'r Angen am Fwy o Graffu

71. Nid yw Cyllid Cymru wedi bod yn destun proses graffu arferol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'), yn dilyn uno Awdurdod Datblygu Cymru â Llywodraeth Cymru, a sefydlu Cyllid Cymru fel is-gwmni hyd braich i Lywodraeth Cymru.

72. Awgrymodd yr FSB y gallai craffu ar Cyllid Cymru yn fwy helpu i ymdrin â rhai o'r pryderon diweddar ynghylch y sefydliad. Dywedodd Josh Miles, o'r FSB, wrth y Pwyllgor y gallai Llywodraeth Cymru:

“... could ask Finance Wales to report annually to a committee such as the Finance Committee, and I think that we could scrutinise performance and, hopefully, have an encouraging debate about the way to improve things if things are going wrong in future, so that we do not get that mission creep that Iestyn mentioned earlier on.”⁴²

73. Cred y Pwyllgor fod nifer o feysydd a allai elwa ar fwy o graffu. Yn arbennig, credwn fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i fuddsoddiadau ecwiti Cyllid Cymru am na chafodd y maes hwn ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwn, a'u perfformiad yn erbyn y targedau a bennwyd ar gyfer pob cronfa.

74. Bu cryn drafod yn y cyfryngau ynghylch perfformiad Cyllid Cymru yn erbyn targedau JEREMIE, gydag awgrymiadau bod Cyllid Cymru ymhell ar ei hôl hi. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, llwyddodd y Pwyllgor i egluro sefyllfa Cyllid Cymru mewn perthynas â hyn a oedd yn ddefnyddiol. Hefyd, awgrymodd y Gweinidog y gall mwy o graffu gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad fod yn fforwm defnyddiol i ystyried agweddau ar berfformiad Cyllid Cymru fel targedau creu swyddi. Ym marn y Pwyllgor, un o fanteision craffu o'r fath fyddai'r gallu i drafod elfennau fel y targedau a'r gallu i adeiladu sylfaen dystiolaeth.

75. Pan holodd y Pwyllgor Cyllid Cymru am y potensial i'r Cynulliad graffu'n fwy ar ei strategaeth a'i berfformiad yn y dyfodol, cadarnhawyd na fyddai unrhyw rwystrau i graffu o'r fath ac yn wir y

⁴² CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 134

byddai'n cael ei groesawu.⁴³ Adleisiwyd hyn gan y Gweinidog a ddywedodd wrthym:

“...would have no objections to this committee looking at those particular issues.”⁴⁴

76. Roedd y Pwyllgor yn synnu ac yn pryderu clywed na fu Cyllid Cymru yn destun unrhyw broses graffu gan y Cynulliad. O ystyried y cyfrifoldeb sydd gan Cyllid Cymru i weinyddu symiau sylweddol o arian cyhoeddus, credwn fod yn rhaid i Bwyllgor Cynulliad perthnasol graffu ar waith Cyllid Cymru yn flynyddol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cyllid Cymru yn destun lefelau tebyg o graffu i gyrff cyhoeddus eraill a gaiff arian cyhoeddus. Ni ddylai hyn effeithio ar annibyniaeth Cyllid Cymru wrth wneud penderfyniadau buddsoddi. Dylai Cyllid Cymru gyflwyno ei adroddiad blynyddol a chyfrifon i bwyllgor perthnasol o'r Cynulliad er mwyn craffu arnynt bob blwyddyn.

⁴³ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 122

⁴⁴ CyT, Pwyllgor Cyllid, 30 Ebrill 2014, paragraff 10

4. Ffyrdd o Weithio Cyllid Cymru

77. Yn seiliedig ar dystiolaeth a gawsom, cred y Pwyllgor y gallai Cyllid Cymru gael budd o adolygu ei arferion gwaith a'i weithdrefnau. Hoffem weld sefydliad sy'n canolbwyntio ar helpu amrywiaeth o fusnesau ac sy'n darparu cyngor clir a chyson. Mae'r bennod hon yn ystyried rhai o'r pryderon mwy cyffredin a godwyd gyda'r Pwyllgor, a allai gael eu hateb drwy'r adolygiad.

78. Fel sylw cyffredinol, nododd y Pwyllgor fod angen sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i BBaChau am Cyllid Cymru a'i bolisiau gwahanol. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai pennu'r union feysydd sy'n peri pryder i BBaChau o ran y gwasanaethau a ddarperir gan Cyllid Cymru yn fan cychwyn da ar gyfer adolygiad cyffredinol o'i arferion gwaith. Byddem yn gobeithio y byddai'r pryderon a godwyd yn y bennod hon hefyd yn ffurfio rhan o'r adolygiad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cyllid Cymru yn cynnal adolygiad o'i arferion gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni i BBaChau. Er mwyn llywio hyn, argymhellwn fod arolwg annibynnol o BBaChau yn cael ei gomisiynu er mwyn pennu ymwybyddiaeth o'r farchnad a phryderon ynghylch Cyllid Cymru.


Cyfraddau Llog

79. Bu cryn dipyn o ganolbwyntio ar lefel y cyfraddau llog a godir gan Cyllid Cymru.

80. Mae cyfraddau llog Cyllid Cymru yn seiliedig ar nifer o ffactorau fel cyfradd gyfeirio'r Comisiwn Ewropeaidd dros amser, asesiad o statws credyd y cwmni, y diogelwch sydd ar gael a'r risg sy'n gysylltiedig â'r cytundeb penodol. Yn ôl yr adolygiad o Fynediad at Gyllid mae'r cyfraddau llog cyfartalog a godir gan Cyllid Cymru yn amrywio rhwng 8 a 12%.

81. Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o gyfraddau llog Cyllid Cymru ('yr adolygiad'), gan Paul Goodman, Rheolwr Gyfarwyddwr Goodman Corporate Consultancy Limited ac Is-Gadeirydd Cymdeithas Genedlaethol y Broceriaid Cyllid Masnachol, a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2013. Nododd yr adolygiad fod Cyllid Cymru, yn y rhan fwyaf o achosion (77%), yn codi llog a oedd

naill ai'n unol â chyfradd y farchnad neu islaw hynny⁴⁵ fel y dangosir yn y graff canlynol.



46

82. Nododd yr adolygiad fod 23% o fenthyciadau gan Cyllid Cymru yn destun cyfradd llog a oedd yn unol â chyfradd y farchnad neu uwchlaw hynny. Awgrymodd y Gweinidog na ddylai'r cwmnïau hyn o reidrwydd fod yn derbyn cyllid gan Cyllid Cymru oherwydd dylent fod wedi gallu cael gwell telerau gan ffynonellau masnachol. Awgrymodd y gallent elwa ar gymorth ychwanegol er mwyn datblygu dogfennau allweddol fel cynlluniau busnes a fyddai'n sicrhau bod y cwmnïau hyn yn cael y gyfradd orau bosibl. Dywedodd Robert Hunter wrth y Pwyllgor:

“We analysed those loans, and they were almost exclusively at the very low end of the risk spectrum. We are talking about 6% that could have been charged had it been placed in the market, compared to a rate of around, say, 8% that was being charged in Finance Wales. For us, that is a really important issue, because we want the money—Government money and the

⁴⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW081

⁴⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW081

money that we are putting into these funds—to go where the market gap genuinely is. If we can free up 23% of funding by working more closely with commercial providers, signposting those loans out to them, it is good for the customer, because they are going to get a lower rate, and it also frees up more money to invest in the higher risk businesses, which is good for us as well.”⁴⁷

83. Mae'r Pwyllgor yn cytuno gyda'r Gweinidog bod angen gwneud rhagor o waith i gefnogi'r busnesau hynny, a allai o bosibl fod wedi cael cyfradd well yn y farchnad fasnachol. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod angen i'r rheini sy'n derbyn cyllid gan Cyllid Cymru ddangos nad ydynt wedi gallu cael gafael ar arian gan fanc yn gyntaf, hoffem weld ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd y gallai'r busnesau hyn helpu i ddatblygu eu busnesau fel eu bod yn fwy deniadol i fenthycwyr masnachol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y defnydd o arian cyhoeddus mor effeithlon â phosibl. Gobeithiwn y bydd hyn yn cael ei ddatblygu gan y Gweinidog, fel rhan o'i gwaith parhaus yn y maes hwn.

84. Dadleuodd Dylan Jones-Evans wrth y Pwyllgor, er mai 10% (cyfradd llog gyfartalog Cyllid Cymru) oedd cyfradd y farchnad, yr hyn a ddylai gael ei ystyried yw 'do we want to give Welsh business a competitive advantage through a fund that is 100% owned by the Welsh Government'.⁴⁸ Aeth ymlaen i ddweud:

“The chief executive of Finnvera said that it offers interest rates between 1.5% and 4% to businesses, and, by the way, it makes a surplus every year on its lending. It was fascinating. He said that if you offer 10% interest rates you will ‘drown’ businesses—he used that term. I had not thought about it that way before. Basically, what he was suggesting, when I asked him to elaborate, was if all you are working towards is paying back that interest rate, rather than investing that money in your business, then that will drown the business in terms of how it actually moves forward.”⁴⁹

85. Adleisiwyd hyn gan yr FSB, a gododd bryderon ei aelodau ynghylch lefelau cyfraddau llog. Dywedodd Iestyn Davies wrthym:

⁴⁷ CyT, Pwyllgor Cyllid, 30 Ebrill 2014, paragraff 84

⁴⁸ CyT, Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2014, paragraff 351

⁴⁹ CyT, Pwyllgor Cyllid, 5 Chwefror 2014, paragraff 353

“... my concern is that, in some instances, in pursuing those interest rates, that is taking businesses into liquidation or closure. In the amount of time that we had available to us—. I accept the fact that, when we ask for an opinion on Finance Wales, it is a bit like when your constituents ring up, in that they ring when they have a problem, they hardly ever ring up to give praise but rather to complain, and so, it is a self-selecting sample, and we accept that, but there are instances where individual businesses are saying, ‘This rate, or this policy, actually pushed me over the edge’. Whether or not that was the case, that is the perception.”⁵⁰

86. Eglurodd Peter Wright i'r Pwyllgor fod y cyfraddau'n unol â gweddill y DU ac mai rhesymeg Cyllid Cymru y tu ôl i lefelau cyfraddau llog oedd:

“... the European guidelines state that the financial intermediary, which is ourselves, the fund manager, should pass on the advantage that it receives from the state to the final beneficiary, that is, the SME—going back to this issue of costing—in the form of either lower interest rates, or reduced collateral requirements, or a combination of the two, so that the business, that is, the final beneficiary, would be in a risk class where the intermediary would not invest, that is, it is deemed too high risk. So, this is where we go back—. We operate at a 10% acceptance of a default. That goes back to the point that you have a choice, in a way: do you bring the interest rates down, and then have a lower risk profile, or—. Our approach has always been that we would much rather widen the funnel and deal with the businesses that have been turned down elsewhere. It goes back to the point that Ian made about there is, therefore, money that is recycled, as it were, for future SMEs as well.”⁵¹

87. Ar y cyfan, roedd cynrychiolwyr BBaChau yn nigwyddiad allgymorth y Pwyllgor o'r farn bod y gyfradd a godwyd gan Cyllid Cymru yn briodol, o ystyried y risg dan sylw a'r symiau bach o sicrwydd cyfochrog a oedd ar gael i Cyllid Cymru am y buddsoddiadau a wnaed ganddo. Ategwyd hyn gan gynrychiolwyr cwmnïau cyfrifyddu,

⁵⁰ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 71

⁵¹ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 204

a wnaeth hefyd ddweud na ddylai'r cyfraddau llog gael effaith sylweddol ar ddichonoldeb busnesau. Awgrymodd Peter Umbleja:

“If you are talking about, say, a £100,000 loan where the interest rate is 10% as opposed to 6%, I do not think that a business decision will be made on the back of a £5,000 or £6,000 annual cost on £100,000-worth of borrowing. I just do not see that that is going to—. If that is going to change a business decision as to whether a business goes forward or not, then I would worry about that business, because it was marginal to start with.”⁵²

88. Yn ogystal â lefelau cyfraddau llog, bu rhywfaint o drafod ynghylch y ffioedd ychwanegol a godir fel rhan o'r benthyciad. Clywodd y Pwyllgor nifer o ddadleuon a oedd yn awgrymu, unwaith y caiff y taliadau ychwanegol gan fanciau eu hychwanegu at daliadau, na fyddai fawr ddim gwahaniaeth yn y swm a godwyd.

89. Tynnodd Dylan Jones-Evans sylw at y ffaith bod Cyllid Cymru yn codi ffioedd ar bob benthyciad:

“In terms of fees—as you wanted to talk about fees—there are fees involved. Arrangement and monitoring fees are charged on top of interest rates. The average monitoring fee is 0.54%; the arrangement fee is about 2%; there are legal fees on top of that; and it sometimes charges for due diligence. So, when you look at the interest rates, you must also factor in some of the other fees that the banks are charging. The argument of Finance Wales is that it does not charge as much as the banks, but there is clearly a charge for arranging that and for monitoring each and every loan, going forward.”⁵³

90. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad:

“The arrangement fees charged by Finance Wales are significantly lower than comparable market fees. The security and monitoring fees are at the lower end of the scale of those charged by ‘the market.’”⁵⁴

⁵² CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 312

⁵³ CyT, Pwyllgor Cyllid, 5 Mawrth 2014, paragraff 311

⁵⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW081

91. Tanlinellodd y dystiolaeth a gafwyd y gwahaniaeth barn ynghylch cyfraddau llog Cyllid Cymru, o'r rhai a gredai fod Cyllid Cymru yn gwneud gwaith da, ac yn gweithredu'n fasnachol, i'r rhai a gredai fod Cyllid Cymru yn rhy ddrud, ac nad oedd yn helpu BBaChau. Ym marn y Pwyllgor, o ystyried y farn negyddol gref a gafwyd, dylai Cyllid Cymru wneud mwy i egluro ei strategaeth i fusnesau.

92. Cred y Pwyllgor y bydd mwy o eglurder ynghylch cylch gwaith Cyllid Cymru, y gwnaethom alw amdano ym mhennod tri, yn mynd peth o'r ffordd i ymdrin â hyn, fel y gwnaiff ymdrin â materion cyfathrebu a marchnata a drafodir yn hwyrach yn y bennod hon.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cyllid Cymru yn rhoi eglurhad pellach i fusnesau o'r strategaethau ar gyfer pob un o'i gronfeydd. Dylai hyn egluro, er bod Cyllid Cymru yn ceisio pontio methiant yn y farchnad o ran benthyca gan fanciau, ei fod hefyd yn gorfod gwneud elw masnachol er mwyn rhoi cyfrif am y risgiau y mae'n eu cymryd wrth fenthyca. Dylai'r cyfraddau llog nodweddiadol a'r ffioedd y mae'n eu codi ar fenthyciadau, ynghyd â'i bolisiau benthyca eraill, fod yn fwy tryloyw a chael eu rhoi i fusnesau cyn iddynt ystyried gwneud cais.

Cymorth gan y Wladwriaeth

93. Mae Cyllid Cymru yn gyfrifol am weinyddu nifer o gronfeydd Ewropeaidd allweddol. Clywodd y Pwyllgor amrywiaeth o safbwyntiau cyfreithiol ynghylch hyblygrwydd Cyllid Cymru mewn perthynas â lefelau cyfraddau llog o ystyried y rhwymedigaethau sydd arno yn sgil derbyn Cymorth gan y Wladwriaeth.

94. Cododd Dylan Jones-Evans bryderon am Gymorth gan y Wladwriaeth yn Rhan Un o'i adroddiad ar Fynediad at Gyllid, a wrthwynebwyd gan Cyllid Cymru, a chyngor cyfreithiol a gafwyd gan y cwmni cyfreithiol, Eversheds. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

“...I discussed this whole report in terms of state aid with two of the leading academics in this field who specialise in financial instruments for the EU, ... So, that has been validated by two leading people. Not only that, but I can absolutely assure you that I would never have been a hostage to fortune and put anything out on state aid without checking it with the Welsh Government itself, and the Welsh Government basically said that this can be used. I also checked it in terms of de minimis

with the UK Government, because it uses this on its start-up loan programme and, again, it said it can be used.

“...So the question you need to ask, not only going forward but also looking back, is: why did it not take advice on this in 2008? Why did it not actually ask the question: can we apply GBER and de minimis to reduce interest rates? Then it is a decision for politicians. If politicians want to say, ‘Fine, this is going to cost us £10 million, £15 million, £20 million’, you make a decision, as the Welsh Government, to say, ‘Do you know what? £20 million to get low interest rates to businesses during the worst recession in living memory—that’s actually a political decision that’s worth it’, but that option was never given.”⁵⁵

95. Pan holodd y Pwyllgor Cyllid Cymru am y posibilrwydd o ddefnyddio mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â chyfraddau llog, eglurodd Peter Wright:

“The rationale for the rates relate to the EIB, particularly, and the other backers in the funds, because all of the models were set up on a specific basis. If you were to vary the interest rate—. One of the things we did with the JEREMIE fund, to make sure that it had the maximum flexibility, was a formal state aid notification. You have choices. You can operate state aid under what is called the general block exemption regulations, which are, basically, an off-the-shelf set of regulations. However, they are quite limiting, because they are, by their nature, off the shelf. Therefore, as Sian said earlier, we would have not been able to invest higher than £1 million, and there would be a number of restrictions. So, we did a formal state aid notification, which linked our rates. We were asked, ‘What rates are you going to charge?’, and we replied that we would align them with the reference rate et cetera. We had a discussion earlier around that. So, if we were to move away to do, as was suggested, subsidised interest rates, we would be contravening that state aid notification, and we would have to go back to the Commission to do a variation. Unfortunately, the commission typically takes six to 12 months to respond to these things.”⁵⁶

⁵⁵ CyT, Pwyllgor Cyllid, 5 Mawrth 2014, paragraff 362

⁵⁶ CyT, Pwyllgor Cyllid, 25 Mawrth 2014, paragraff 241

96. Aeth Cyllid Cymru ymlaen i egluro bod rhywfaint o hyblygrwydd o fewn hyn, ar yr amod bod y gyfradd gyfartalog yn parhau ar y trywydd iawn. Dywedodd Siân Lloyd Jones:

“The other point to note is that when we model the funds at the outset, before we have an investor, we make an assumption about the average interest rate that we will lever from the investments. It is on that basis, when they can see that they will get their return, that they make the offer of commercial finance. So, we have scope to vary within that, because it is an average, rather than an absolute, and that means that we can operate a range of interest rates within that fund model.”⁵⁷

97. Mae nifer y cronfeydd a reolir gan Cyllid Cymru, ynghyd â'u natur amrywiol, yn golygu y bydd rheolau gwahanol yn gymwys ymhob achos. Cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol i ystyried pob math o hyblygrwydd yn llawn er mwyn sicrhau bod busnesau Cymru yn cael y gorau o unrhyw drefniadau cyllido. I gyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Cyllid Cymru er mwyn ystyried yr opsiynau ar gyfer hyblygrwydd o fewn cymorth gan y wladwriaeth.

98. Ym marn y Pwyllgor dylai fod rhywfaint o gyfeiriad gwleidyddol ynghlwm wrth y penderfyniad, ac unwaith eto gellid cyflawni hyn drwy fireinio'r cylch gwaith a nodi diben Cyllid Cymru yn glir.

Ardaloedd Menter

99. Mae'r penderfyniad i leihau cyfraddau llog mewn ardaloedd menter yn dangos sut y gellir defnyddio hyblygrwydd Cymorth gan y Wladwriaeth.

100. Ar 21 Hydref 2013, cyhoeddodd Cyllid Cymru⁵⁸ y byddai'n cynnig cyfraddau llog a oedd 2% yn is yn yr ardaloedd menter. Eglurodd Cyllid Cymru fod y penderfyniad hwn wedi cael ei wneud yn dilyn asesiad o'r risg is o ystyried y cymorth ychwanegol a oedd ar gael iddo. Dywedodd Peter Wright wrthym:

“Yes it is, largely. I think that members of the committee were at Milford Haven at the same time as when I was there. My conversations earlier that day with Nick Bourne as the chair of

⁵⁷ CyT, Pwyllgor Cyllid, 25 Mawrth 2014, paragraff 242

⁵⁸ Cyllid Cymru, [Arbedion cyfraddau llog i fusnesau bach a chanolig ym Mharthau Menter Cymru](#), 21 Hydref 2013

the Haven Waterway enterprise zone were about what Finance Wales could do to support the enterprise zone initiative. That was when the decision was made—on that day, in fact. I said, ‘Actually, you are getting rate relief and capital allowance relief. There is not a massive arrangement. Perhaps there is something we can do about interest rates’. I went away and we came up with the 2% reduction.”⁵⁹

101. Fodd bynnag, awgrymodd y Gweinidog fod y fath amrywiad mewn polisi yn ymwneud yn fwy ag ymyriad y llywodraeth:

“If I could talk about where we have intervened, we have done subsidised loans in the enterprise zones—2% below—because I thought that that was important to generate interest within the enterprise zones. Of course, that means that I would take a hit on anything I had to do because we have to recognise that subsidised loans come at a cost, and we have to look at the value for money in terms of the impact on retaining jobs, growth and everything, which I am happy to do.”⁶⁰

102. Mae'r penderfyniad polisi hwn yn codi nifer o gwestiynau ynghylch lefel hyblygrwydd rheolau Cymorth gan y Wladwriaeth. Gofynnodd Dylan Jones-Evans:

“So, the question is: if it cannot reduce rates, how come it actually reduced rates within the enterprise zones last October? It made a clear statement that it could not do it and yet, now, it has gone ahead and done it”⁶¹

103. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog, cadarnhaodd ei swyddog Robert Hunter fod y penderfyniad yn yr ardaloedd menter yn dangos bod gan Cyllid Cymru yr hyblygrwydd i bennu cyfraddau llog:

“Finance Wales’s rates, when it has set them, including the risk premium, are higher than the European reference rate. So, from the state-aid point of view, Finance Wales could charge lower rates and, in fact, that was evidenced because of the 2% reduction in enterprise zones, for example.”⁶²

⁵⁹ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 217

⁶⁰ CyT, Pwyllgor Cyllid, 30 Ebrill 2014, paragraff 81

⁶¹ CyT, Pwyllgor Cyllid, 5 Mawrth 2014, paragraff 364

⁶² CyT, Pwyllgor Cyllid, 30 Ebrill 2014, paragraff 82

104. Mae'r Pwyllgor yn croesawu mentergarwch Cyllid Cymru i gynnig cyfraddau is mewn Ardaloedd Menter. Fodd bynnag, o ystyried na fydd pawb yn yr Ardaloedd Menter o bosibl yn penderfynu gwneud cais am y fath ostyngiad a'i fod ar ffurf ad-daliad grant gydag amodau ynghlwm nid ydym yn argyhoeddedig ynghylch rhesymu Cyllid Cymru fod busnesau yn yr ardaloedd hyn yn peri llai o risg am fod ardrethi busnes yn is. Cred y Pwyllgor y dylai Cyllid Cymru, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, ystyried mwy o ffyrdd o gynnig hyblygrwydd ar ei gyfraddau llog.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth ddylunio cronfeydd yn y dyfodol, fod Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru yn sicrhau bod digon o hyblygrwydd i addasu cyfraddau llog a manteisio ar eithriadau cymorth gan y wladwriaeth. Yna, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, dylid cynllunio ar gyfer costau gostwng cyfraddau llog o bosibl er mwyn sicrhau bod digon o gymorth ariannol ar gael.

Cyfathrebu/marchnata

105. Un o'r cwynion mwyaf cyffredin a godwyd gyda'r Pwyllgor yn y digwyddiad allgymorth i BBaChau oedd bod angen i Cyllid Cymru wneud mwy o ran cyfathrebu a marchnata'r gwasanaethau a ddarparwyd ganddo. Roedd hyn yn adlais o ganfyddiadau Dylan Jones-Evans yn yr adolygiad o Fynediad at Gyllid.

106. Dywedodd nifer o fusnesau wrthym nad oedd y wybodaeth a roddwyd gan Cyllid Cymru yn glir ynghylch pa feysydd roedd yn eu cefnogi ac, o ganlyniad, nid oeddent yn gwneud cais neu roeddent yn gwastraffu amser/adnoddau gwerthfawr yn gwneud cais pan nad oeddent yn bodloni'r meini prawf cymhwyso. Roedd hyn yn arbennig o wir am fusnesau manwerthu sy'n anodd eu diffinio ac sydd ond yn gymwys i gael rhywfaint o gronfeydd Cyllid Cymru. Roedd cwynion eraill yn cynnwys y wybodaeth sydd ar gael ar ei wefan ac ansawdd ei wybodaeth argraffedig.

107. Roedd yr FSB o'r un farn. Dywedodd Iestyn Davies wrth y Pwyllgor:

“One of the problems we have found is that, until quite recently, its ability to engage and to disseminate information has been quite poor. We have raised that with it directly,

outside the public spotlight and, indeed, outside the current context.”⁶³

108. Mynegodd yr FSB ei rwystredigaeth hefyd ynghylch y ffordd roedd Cyllid Cymru yn rhannu gwybodaeth am y gronfa i ficrobusnesau. Dywedodd Iestyn Davies wrthym:

“...Alarm bells rang for us as a fairly new team when we were engaging with Finance Wales after the very positive announcement that your colleague Edwina Hart made around the SME investment fund and the micro investment fund. We tried to elicit information in order to push that to our members. You can imagine the situation: we have lobbied and campaigned for a solution, that solution was delivered by Government, and then we felt that it was our responsibility to push that to our members, so why would we not champion what we feel we have been partly involved in bringing about as a relief to them? Our concern started when we tried to get the basic information, particularly on the £40 million SME investment fund, and we found it very difficult in what is a very opaque organisation to have the information to be able to broadcast to our members.”⁶⁴

109. Cododd y Pwyllgor y pryderon hyn gyda Cyllid Cymru, a oedd yn cydnabod bod hyn yn bryder. Eglurodd Ian Johnson:

“I think that the short answer is that, clearly, we recognise that we need to do more in terms of stakeholder communications. There is clearly a gap in knowledge out there in some quarters, which we are addressing, but, as we said earlier, the publications are there and are available as public documents for everyone to see.”⁶⁵

110. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, nododd HWB Cymru nad oedd yn credu bod gweladwyedd Cyllid Cymru yn bryder mawr:

“We disagree with the Report [Access to Finance Stage One report] and the FSB in Wales’ conclusions regarding the visibility of Finance Wales. In our Welsh SME Finance Survey, August 2013, even though Finance Wales only dealt with

⁶³ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 61

⁶⁴ CyT, Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, paragraff 95

⁶⁵ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 92

Business to Business finance until recently (and hasn't been in the micro business market) awareness of Finance Wales is high.

“Almost 50% of businesses surveyed were aware of Finance Wales, which is a high penetration level into the sector. Other business services have a much lower awareness level.”⁶⁶

111. At hynny, awgrymodd y dystiolaeth a gafwyd gan gwmnïau cyfrifyddu a chyfryngwyr eraill fod gan Cyllid Cymru enw da a'i fod yn weladwy o fewn y gymuned fusnes.

112. Mae'r tabl isod, a ddarparwyd gan y Gweinidog, yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond 28% o atgyfeiriadau Cyllid Cymru a ddaeth yn uniongyrchol o BBaChau. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod hyn yn arwydd o broblem o fewn Cyllid Cymru. Clywsom nifer o bryderon ynghylch microfusnesau a nanofusnesau na allent gael gafael ar gyllid a chredwn nad yw'r mathau hyn o fusnesau yn debygol o ymgysylltu â chyfryngwyr.

Canran y busnesau a atgyfeiriwyd at Cyllid Cymru o'r sector banciau a sectorau proffesiynol eraill

Banciau	Y Sector Cyhoeddus	Yn uniongyrchol o BBaChau ⁶⁷	Eraill yn y Sector Preifat	Cofnod anghyflawn
35	59	65	55	21
15%	25%	28%	23%	9%

CYFANSWM: 235⁶⁸

113. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gydnabyddiaeth gan Cyllid Cymru y gellid gwneud mwy i gyfathrebu â rhanddeiliaid. Er ein bod yn cydnabod bod Cyllid Cymru wedi meithrin cydberthnasau gwaith da â chyfryngwyr fel cyfrifwyr, ac yn uniongyrchol â banciau, mae'n bwysig bod busnesau yn teimlo y gallant fynd at Cyllid Cymru yn uniongyrchol. Mae gan Cyllid Cymru gyfrifoldeb i helpu'r busnesau hynny a all fod ychydig yn wahanol i'r traddodiadol ac, fel y cyfryw, rhaid iddo fod mor hygyrch a hawdd mynd ato â phosibl.

⁶⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW073

⁶⁷ Byddai hyn yn cynnwys atgyfeiriadau gan gwmnïau portffolio ar gyfer buddsoddiad dilynol, h.y. busnes mynych

⁶⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4) FW081

114. Er mwyn helpu i ymdrin â'r materion hyn, hoffem weld Cyllid Cymru yn darparu gwybodaeth glir sy'n amlinellu pa wasanaethau y mae'n eu darparu, a pha gronfeydd sy'n berthnasol i fathau gwahanol o fusnesau (ee nodi'n glir nad yw JEREMIE yn gymwys i fusnes i fusnesau defnyddwyr).

115. At hynny, cred y Pwyllgor fod angen gwell atgyfeiriadau at Cyllid Cymru i bob busnes. Yn ein barn ni, mae Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r sefydliad ei hun, yn gyfrifol am gyfleu rôl Cyllid Cymru - yn enwedig gyda gwasanaethau fel Busnes Cymru a thu hwnt gyda sefydliadau fel yr FSB. Credwn y dylai'r holl BBaChau cefnogol hynny gydweithio er mwyn sicrhau bod cynifer o sefydliadau â phosibl yn ymwybodol o'r ffynhonnell bwysig hon o gyllid ac yn gallu cael gafael arni.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru yn adolygu eu strategaeth ar gyfer cyfathrebu â busnesau. Dylid datblygu partneriaethau â banciau, cyfryngwyr a grwpiau sy'n cynrychioli busnesau fel y gellir marchnata cronfeydd newydd yn effeithiol.

Fodd bynnag, ni ddylai'r rhwydweithiau hyn gael eu hystyried yn 'borthgeidwaid' mynediad at Cyllid Cymru. Felly, argymhellir bod Cyllid Cymru yn gwella ei allu i gyfathrebu'n uniongyrchol â darpar fenthycwyr, yn enwedig busnesau bach.

Perfformiad/tryloywder

116. Yn ogystal â'r pryderon ehangach ynghylch cyfathrebu a marchnata roedd gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch perfformiad a thryloywder Cyllid Cymru.

117. Cyflwynodd Cyllid Cymru ei drefniadau monitro i'r Pwyllgor. Eglurodd Ian Johnson:

“Well, initially, the board holds the management to account for the budget. We set a budget for the year and we monitor the management’s performance against that budget. Externally—or sort of externally—the Minister and I sit down and look at the overall performance of the business and decide what the

priorities might be for the coming year. Broadly speaking, that is how Finance Wales is monitored.”⁶⁹

118. Aeth Chris Rowlands ymlaen i egluro:

“The monthly management information that we get as board members would include a range of key performance indicators, including investment activity against our budget for the year across the various funds and across the various types of investing that we do. It would also include things like default rates, arrears rates, and other detailed indicators of the underlying portfolio performance. It would include job creation and job retention levels against our forecasts for the year and so on. There is quite a detailed suite of KPIs that the business adopts each year, which we sign off and then monitor against.”⁷⁰

119. Mae dangosyddion perfformiad allweddol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fonitro Cyllid Cymru. Pennir y dangosyddion ar ddechrau pob cronfa ac yna cânt eu monitro a'u hadrodd i'r rhanddeiliaid perthnasol.⁷¹ Dywedodd Siân Lloyd Jones wrth y Pwyllgor:

“I am sorry to harp on, but for each of the individual funds, the key performance indicators are set at the outset. So, using the microloan fund as an example, we make a proposal and say, ‘From £6 million, we expect to make x number of investments, create x number of jobs and help x number of SMEs’. For some of the other funds, the indicators might relate to the number of patents filed, for example, in the technology side of the business. Those are set at the outset and are then projected over a five-year period, usually.”⁷²

120. Clywodd y Pwyllgor gan nifer o dystion ynghylch yr anawsterau a gafwyd yn cael gafael ar wybodaeth am berfformiad Cyllid Cymru. Dywedwyd wrth y Pwyllgor, er bod y cyfrifon blynyddol yn cael eu cadw yn Nhŷ'r Cwmnïau, nad yw'r wybodaeth hon yn hawdd cael gafael arni na'i dehongli gan y rheini nad ydynt ynghlwm wrth y sector ariannol yn uniongyrchol.

⁶⁹ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 274

⁷⁰ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 275

⁷¹ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 278

⁷² CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 276

121. Holodd y Pwyllgor dystion am waith monitro perfformiad Cyllid Cymru. Clywsom rai safbwyntiau croes ynghylch yr adroddiad blynyddol. Dywedodd yr FSB wrth y Pwyllgor mai'r adroddiad blynyddol diwethaf roedd yn ymwybodol ohono oedd yn 2010,⁷³ tra dywedodd Peter Umbleja wrth y Pwyllgor fod ganddo gopi o adroddiad blynyddol 2012-13⁷⁴. Cyn ei sesiwn dystiolaeth, rhoddodd Cyllid Cymru gopi o adroddiad blynyddol 2012-13 i'r Pwyllgor⁷⁵ ynghyd â'i gyfrifon. Fodd bynnag, ymddengys nad yw wedi'i gyhoeddi.

122. Maes arall a gafodd ei feirniadu oedd cyflogau staff Cyllid Cymru. Pan y'i holwyd am hyn yn y Pwyllgor, eglurodd Cyllid Cymru ei fod wedi cyflwyno system cyflogau seiliedig ar berfformiad yn 2007-08. Cred y Pwyllgor fod hyn yn enghraifft arall o sut y gallai Cyllid Cymru fod wedi osgoi peth beirniadaeth drwy fod yn fwy tryloyw ac agored.

123. Ym marn y Pwyllgor mae angen i Cyllid Cymru fod yn fwy tryloyw a byddai'r sefyllfa yn cael ei gwella drwy fwy o graffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag argymhelliad pump. Fodd bynnag, credwn hefyd y byddai'r sefyllfa hon yn cael ei gwella drwy sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn hawdd lle bo'n ymarferol - er enghraifft, os oes adroddiad blynyddol ar gael pam na ddylid darparu dolen iddo ar y wefan neu rannu'r adroddiadau ar y dangosyddion allweddol yn ehangach gan fod hyn yn fater sydd o ddiddordeb eang.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cyllid Cymru yn mabwysiadu'r un lefelau o dryloywder o ran ei berfformiad â'r hyn a welir mewn cyrff cyhoeddus eraill. Dylai'r adroddiadau monitro a gwerthuso y mae'n eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill gael eu cyhoeddi. Hefyd dylid darparu gwybodaeth ar ei wefan am berfformiad buddsoddiadau, creu swyddi, cyllid a meini prawf dyfarnu. Dylai gwybodaeth am berfformiad hefyd fod wrth wraidd adroddiad blynyddol a chyfrifon newydd a manylach. Cred y Pwyllgor yn gryf, er y bydd y fath dryloywder yn anochel yn arwain at beth beirniadaeth ar adegau, bydd hefyd yn ffordd ardderchog o ddangos llwyddiannau Cyllid Cymru.

Gwaith Cyllid Cymru y Tu Allan i Gymru

124. Yn ogystal â gwaith yng Nghymru, mae gan Grŵp Cyllid Cymru is-gwmni 'FW capital' sy'n gyfrifol am weinyddu cronfeydd ledled

⁷³ CyT Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, Paragraff 105

⁷⁴ CyT Pwyllgor Cyllid, 12 Mawrth 2014, Paragraff 330

⁷⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, FIN(4)-06-14 Papur 3

gogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Lloegr. Clywodd y Pwyllgor farn gymysg ynghylch a ddylai Cyllid Cymru fod ynghlwm wrth gronfeydd y tu hwnt i Gymru.

125. Er enghraifft, ysgrifennodd David Notley o Impact Innovation:

“Finance Wales should focus all its efforts on Wales and not distract itself with other Fund Management activities.”⁷⁶

126. Tra awgrymodd Adrian Godfrey, Partner Cyllid Corfforaethol o Mazars:

“I believe we should applaud the success of Finance Wales in exporting its expertise to generate business elsewhere in the UK. We are looking to stimulate good financial services’ businesses in Wales and I would argue that Finance Wales is an example of this. In my view, this activity is of benefit to the economy of Wales both in terms of creating jobs based in Wales and also through absorption of the existing cost base over a wider revenues which should ultimately drive down the cost of funding to SMEs in Wales.”⁷⁷

127. Adleisiwyd y farn hon gan y Gweinidog pan roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor. Dywedodd fod gweinyddu'r cronfeydd hyn yn golygu:

“... the profits come back directly to us in terms of administration, so it is good. However, you may not have had it raised with you, but I have had it raised with me, that it should be an institution that just provides for Wales, and does not go outside Wales. I will have a little look at it, but, at the moment, I am minded to say that, if I am getting the benefit of investments that are managed outside Wales and money is coming back to me, then, looking at purely commercially, perhaps I will not change anything.”⁷⁸

128. Aeth Robert Hunter ymlaen i ddweud:

“There is another side issue with this, which is quite interesting, and that is, because it is employing people in the north of England on these various funds, it broadens the

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, FIN(4) FW002

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, FIN(4) FW066

⁷⁸ CyT Pwyllgor Cyllid, 30 Ebrill 2014, Paragraff 145

expertise range for Finance Wales, which actually benefits us. One of the things that I noticed when it took these funds on was that there was a much bigger push from the Finance Wales board on managing its equity portfolio in Wales and it had access to additional expertise that it had taken on. So, the business itself has become broader and bigger and can call on more resources, which, actually, I think has benefitted Wales indirectly as well.”⁷⁹

129. Mae'r Pwyllgor yn croesawu gwaith Cyllid Cymru yng ngogledd Lloegr. O ystyried bod hyn yn gweinyddu arian yn benodol i'r ardaloedd hyn, ni chaiff unrhyw arian ei gymryd allan o Gymru ac, mewn gwirionedd, mae Cymru yn elwa ar yr elw a wneir yn sgil y gweithgareddau hyn. Cyhyd â bod y gwaith hwn yn parhau i beidio â chael effaith uniongyrchol ar allu Cyllid Cymru i gyflawni dros Gymru, credwn y gall gael llawer o fanteision cadarnhaol. Yn arbennig, Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith ei fod yn meithrin capasiti ac yn ei gwneud yn bosibl i rannu gwybodaeth ac arbenigedd yn fwy, a all helpu i wneud buddsoddiadau Cymru yn fwy effeithiol.

Hyblygrwydd o fewn Cyllid Cymru

130. Mae strwythur presennol Cyllid Cymru yn golygu bod cryn hyblygrwydd o ran y gwaith y gall ei wneud. Amlinellodd Siân Lloyd Jones fuddiannau hyn i'r Pwyllgor.

“It has also proved to be quite flexible. Using the existing structures and the existing model, we were able, for the housing and regeneration department, to set up the Help to Buy-Wales scheme at very short notice. We did that within about three months and it has been operating since January. That is a very different marketplace, if you like, from the one that we are accustomed to working in, in terms of investing. However, in terms of establishing models for providing finance for different types of individuals or people, then we have the skills to set those things up and we have recruited people to run it.”⁸⁰

131. Hefyd, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor, wrth gyflwyno cynllun newydd, fod yr adran yn ystyried a all Cyllid Cymru ei weinyddu, oherwydd drwy ddefnyddio'r strwythurau sy'n bodoli eisoes

⁷⁹ CyT Pwyllgor Cyllid, 30 Ebrill 2014, Paragraff 146

⁸⁰ CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 329

gall gael y gwerth gorau am arian o weinyddu'r cynllun. Eglurodd Robert Hunter:

“ ... if you take all of the fixed cost of that asset that we are funding each year through the block grant, the more we do with that, the more we can actually get out of that asset and the lower the unit cost is, if you like. Therefore, it made sense; we are only paying for that scheme the marginal cost for the eight staff, plus a few other bits and pieces, whereas, if we had actually gone out to tender on that and got a fund manager in, it would have been a significant amount of money that we would have been paying.”⁸¹

132. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull hwn o weithredu a byddai'n annog defnyddio Cyllid Cymru pan fo'n briodol er mwyn gweinyddu cynlluniau newydd. Ymddengys fod defnyddio sgiliau a strwythurau sy'n bodoli eisoes yn ffordd ymarferol a synhwyrol ymlaen, yn enwedig o ystyried enw da Cyllid Cymru ymhlith benthyccwyr eraill.

133. Wrth edrych ymlaen, mae'r broses o ddarparu cyllid yn esblygu gyda dulliau a thechnegau cyllido newydd yn cael eu cyflwyno fel Cyllid torfol, CDFI (Sefydliadau Ariannol Datblygu Cymunedau) a chyllid rhwng cymheiriaid. Clywodd y Pwyllgor fod Cyllid Cymru wedi dechrau ystyried y meysydd hyn ac y byddai'n eu datblygu yn y dyfodol. Dywedodd Chris Rowlands wrthym:

“We cannot be King Canute about this; it is with us and so I think it is a question of Finance Wales working out how it can absorb and adopt that proposition as part of its suite of activity. We have three new funds that are going to be launched—two this year and one next—to address very specific areas of market failure. So, in that sense, our operating model is constantly under refresh.”⁸²

134. Unwaith eto, mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn a byddai'n annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda Cyllid Cymru er mwyn sicrhau bod ei fodel gweithredu yn berthnasol i'r dulliau cyllido sy'n datblygu.

⁸¹ CyT, Pwyllgor Cyllid, 30 Ebrill 2014, paragraff 127

⁸² CyT, Pwyllgor Cyllid, 26 Mawrth 2014, paragraff 339

Atodiad A: Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn y sesiynau tystiolaeth lafar yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1243.

Dydd Mercher 5 Chwefror 2014

Yr Athro Dylan Jones-Evans Prifysgol Gorllewin Lloegr

Dydd Mercher, 12 Mawrth 2014

Peter Umbleja	Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Alistair Wardell	Partner/Cynghorwr, Grant Thornton UK LLP
Iestyn Davies	Pennaeth Materion Allanol, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Josh Miles	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

Dydd Mercher 26 Mawrth 2014

Sian Lloyd Jones	Prif Weithredwr, Cyllid Cymru
Peter Wright	Cyfarwyddwr Buddsoddi Strategol, Cyllid Cymru
Ian Johnson	Cadeirydd Bwrdd Cyllid Cymru ccc
Chris Rowlands	Aelod o Fwrdd Cyllid Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Buddsoddi

Dydd Mercher 30 Ebrill 2014

Edwina Hart AC	Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Rob Hunter	Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn

www.senedd.cynulliadcymru.org/mgConsultationDisplay.aspx?ID=102

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Finance Birmingham	FIN(4)FW001
Impact Innovation	FIN(4)FW002
MiE Group	FIN(4)FW003
HLN Group	FIN(4)FW004
Fusion IP plc	FIN(4)FW005a
Fusion IP plc	FIN(4)FW005b
Green Bay Media	FIN(4)FW006
Moragn Cole LLP	FIN(4)FW007
Flexible Commercial Funding Ltd	FIN(4)FW008
Arian Cymru	FIN(4)FW009
Eversheds LLP	FIN(4)FW010
MedaPhor Ltd	FIN(4)FW011
Alex Gooch Artisan Baker Ltd	FIN(4)FW012
Clearstream Technology Ltd	FIN(4)FW013
Inscapes	FIN(4)FW014
JR Gilbert Engineering Ltd	FIN(4)FW015
Watts Gregory LLP	FIN(4)FW016
Hywel Evans	FIN(4)FW017
Simon Thelwall-Jones	FIN(4)FW018
Dolun Developments (South Wales) Ltd	FIN(4)FW019
Grant Thornton UK LLP	FIN(4)FE020
Simon Powell	FIN(4)FW021
Creomed	FIN(4)FW022
Biotec Services International Ltd	FIN(4)FW023

Tim Wade	FIN(4)FW024
Wholebake Cyf	FIN(4)FW025
Mark Barry	FIN(4)FW026
James Brow Industries Ltd	FIN(4)FW027
Bevan Buckland	FIN(4)FW028a
Bevan Buckland	FIN(4)FW028b
Hafren	FIN(4)FW029
BioMonde	FIN(4)fw030
Magnet & Steel Ltd	FIN(4)FW031
Padarn Bus Limited	FIN(4)FW032
Giltar Hotel	FIN(4)FW033
Broomfield & Alexander	FIN(4)FW034
Limegreentangerine	FIN(4)FW035
ACCA CymruWales	FIN(4)FW036
CM International	FIN(4)FW037
Clarkslegal LLP	FIN(4)FW038
BDO LLP	FIN(4)FW039
Stephen Hughes	FIN(4)FW040
Geoff Andrews	FIN(4)FW041
Laser Wire Solutions	FIN(4)FW042
Alan Yule	FIN(4)FW043
Super Rod	FIN(4)FW044
Panal y Sector Technoleg Gwybodaeth a Chfathrebu	FIN(4)FW045
Voltcom Group	FIN(4)FW046
Energy Recovery Investments	FIN(4)FW047
Greg Wilkinson	FIN(4)FW048
Clinithink Ltd	FIN(4)FW049
Bryn Tanat Hall	FIN(4)FW050
Prifysgol Caerdydd	FIN(4)FW051
Bevan & Buckland	FIN(4)FW052

Charterhouse	FIN(4)FW053
Fps Panel	FIN(4)FW054
Hugh James	FIN(4)FW055
PBD Consulting	FIN(4)FW056a
PBD Consulting	FIN(4)FW056b
EBA Consulting Ltd	FIN(4)FW057
Visionary Consultants Limited	FIN(4)FW058
Contract Services (South Wales) Ltd	FIN(4)FW059
KPMG	FIN(4)FW060
Elite Fitness	FIN(4)FW061
Maldwyn Jones	FIN(4)FW062
Gambit Corporate Finance	FIN(4)FW063
Watts Gregory LLP	FIN(4)FW064
Ffederasiwn Busnesau Bach	FIN(4)FW065
Mazars	FIN(4)FW066
ICAEW	FIN(4)FW067
The North West Fund	FIN(4)FW068
HLN Group	FIN(4)FW069
Bwrdd Cyllid Cymru plc	FIN(4)FW070a
Bwrdd Cyllid Cymru plc – Cyngor gan Eversheds ynghylch cymorth gwladwriaethol	FIN(4)FW070b
Kilsby and Williams	FIN(4)FW071
Robert Owen Community Banking Fund	FIN(4)FW072
HWB Cymru	FIN(4)FW073
Freight Movement Ltd	FIN(4)FW074
Protocol Control Systems Ltd	FIN(4)FW075
Clarissa Chambers	FIN(4)FW080

Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol

Sefydliad

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Digwyddiad allgymorth gyda Busnesau Bach a
Chanolig

Cyfeirnod

FIN(4)FW081

FIN(4)FW082

Pwyllgor Cyllid – Ymchwiliad i Cyllid Cymru

Brecwast Rhanddeiliaid Cyllid Cymru

22 Ionawr 2014

Pierhead, Bae Caerdydd

Cefndir

- 01.** Fel rhan o'i ymchwiliad i Cyllid Cymru, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid frechwast gyda busnesau bach a chanolig ar 22 Ionawr 2014 i drafod eu profiadau â Cyllid Cymru. Mae rhestr lawn o'r rhai oedd yn bresennol yn Atodiad A.
- 02.** Roedd pedwar grŵp trafod yn y sesiwn. Dosbarthwyd meysydd arfaethedig ar gyfer trafodaeth, sydd i'w gweld yn Atodiad B.

Y Prif Faterion

- 03.** Roedd llawer o gefnogaeth ar gyfer Cyllid Cymru yn y sesiwn, a dywedodd llawer eu bod yn anghytuno â chanfyddiadau'r adolygiad Mynediad at Gyllid. Dywedodd y busnesau bach a chanolig wrth yr Aelodau eu bod yn gwerthfawrogi dulliau Cyllid Cymru o weithio, fel bod yn hyblyg o ran trefniadau ariannu a'r sefydlogrwydd y mae'n cynnig o gymharu â banciau'r stryd fawr. Awgrymwyd bod Cyllid Cymru yn ased ac y gallai fod wedi cael mwy o gymorth, a bod yr awydd i gael gwared â Cyllid Cymru yn enghraifft arall o Gymru yn creu niwed diangen iddi'i hyn.
- 04.** Roedd mwyafrif y pryderon a fynegodd y busnesau bach a chanolig i aelodau'r Pwyllgor yn ymwneud â gofal cwsmeriaid a chyfathrebu. Roedd awgrym y gallai Cyllid Cymru fod yn fwy rhagweithiol o ran hyrwyddo ei hun i fusnesau bach a chanolig, gan fod llawer o atgyfeiriadau yn digwydd drwy gyfryngwyr, fel cyfrifwyr.
- 05.** Cododd y busnesau bach a chanolig nifer o gwestiynau ynglŷn ag arloesedd Cyllid Cymru a sut mae'n canfod syniad newydd/da ac a oes digon o wybodaeth arbenigol o fewn y sefydliad.
- 06.** Dyma'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn y trafodaethau, mae rhagor o fanylion isod:
 - Mae angen Cyllid Cymru
 - Mae angen diffinio cylch gwaith Cyllid Cymru
 - Cyfraddau Llog Cyllid Cymru
 - Cyfathrebu a Marchnata
 - Cyllid ar gyfer gwahanol fathau o fusnesau
 - Hyd y broses



– Mae angen adolygu cymorth ehangach Llywodraeth Cymru i fusnesau

Mae angen Cyllid Cymru

Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr y busnesau bach a chanolig o'r farn bod angen Cyllid Cymru. Roeddent o'r farn na fyddai llawer o fusnesau wedi dod i fodolaeth, neu heb gael eu lleoli yng Nghymru, heb Cyllid Cymru. Roedd Cyllid Cymru yn barod i fenthycwyr pan oedd y risg yn annerbyniol i'r benthycwyr mawr. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod Cyllid Cymru wedi benthycwyr i fusnesau; ac am nad oes ecwiti preifat yng Nghymru roedd Cyllid Cymru wedi helpu i bontio'r bwlch hwnnw. Nid oeddent yn ystyried fod Cyllid Cymru yn cymryd lle buddsoddiadau preifat, ond yn hytrach ei fod yn cyd-fynd â hwy. Roeddent hefyd o'r farn bod Cyllid Cymru yn barod i wrando ac yn hyblyg ac yn gallu llenwi bwlch oherwydd yr ystod eang o gynnyrch mae'n cynnig.

Cylch Gwaith Cyllid Cymru

Dywedwyd wrth Aelodau bod angen egluro cylch gwaith a phwrpas Cyllid Cymru. Roedd cynrychiolwyr y busnesau bach a chanolig o'r farn bod angen egluro a yw Cyllid Cymru yn lled-ddarparwr grantiau, yn asiantaeth datblygu economaidd neu yn fenthycwr annibynnol/endid masnachol. Roedd rhai cynrychiolwyr o'r farn mai ei brif swyddogaeth oedd buddsoddi, ac roedd eraill o'r farn bod Cyllid Cymru yn mynd drwy brosesau cyfalaf menter er mwyn gwneud penderfyniadau. Roedd y busnesau bach a chanolig o'r farn nad oedd yn eglur a yw Cyllid Cymru yn canolbwyntio ar ariannu cychwyn busnesau, hwyluso twf neu ddatblygu swyddi. Awgrymodd rhai o'r busnesau bach a chanolig y dylai Cyllid Cymru ddarparu cronfeydd cyllid sbarduno, yn enwedig oherwydd y prisiau tir a'r costau cychwynnol isel yng Nghymru. Cafodd nifer o bryderon eu mynegi ynghylch yr anhawster bod Cyllid Cymru yn strwythur corfforaethol o fewn cylch gorchwyl gwleidyddol a bod angen penderfynu a ddylai fod yn sefydliad sy'n cydbwysu risg a diogelwch cyn buddsoddi mewn busnes, neu yn ddim ond cangen o adran datblygu busnes Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn bryder i fusnesau bach a chanolig achos, os yw Cyllid Cymru am fod yn llwyddiant, mae arno angen pobl sy'n gyfarwydd â byd busnes/masnach. Yn ôl y cyfranogwyr: *'you can't do finance on the process'*.

Cyfraddau Llog Cyllid Cymru

Bu llawer o drafod ynghylch a yw cyfraddau llog Cyllid Cymru yn rhy uchel, sef 10% ar gyfartaledd. Y consensws cyffredinol oedd nad oedd y cyfraddau yn afresymol o ystyried lefel y risg sy'n gysylltiedig, am fod y rhan fwyaf o'r benthyciadau heb eu gwarantu. Awgrymwyd bod y feirniadaeth o'r cyfraddau llog yn ddiangen yn enwedig am nad oedd y banciau'n benthycwyr i fusnesau fel y cyfryw. Nodwyd er bod gan fenthyciadau masnachol cyfradd ganrannol flynyddol yn is, ar ôl ychwanegu pethau eraill fel yswiriant bywyd, roedd yn codi i lefel gymharol â chyfradd ganrannol flynyddol Cyllid Cymru. Hefyd, y gwahaniaeth rhwng cyfradd ganrannol flynyddol o 5% a chyfradd ganrannol flynyddol o 10% yw tua £100 y mis. Nid yw hynny'n ddigon i wneud busnes yn anhyfyw. Awgrymwyd



fod camsyniad bod cyfraddau uchel yn cael eu cynnig, ac amlygwyd nad yw'r lefelau'n ddim byd tebyg i gyfraddau WONGA neu gwmnïau o'r fath, neu hyd yn oed cwmnïau ecwiti preifat yn Llundain. Os byddai'r cyfraddau yn rhy uchel ni fyddai Cyllid Cymru yn cael unrhyw fusnes. Roeddent wedi synnu bod Cyllid Cymru yn cael ei feirniadu am ymdrechu i fod yn hunangynhaliol. Roedd cwestiwn ynghylch a fyddai pobl am i Lywodraeth Cymru ddarparu cymhorthdal ar gyfer cyfraddau llog drwy gost i'r trethdalwr.

Cyfathrebu a Marchnata

Un o'r prif bryderon ynghylch Cyllid Cymru oedd bod angen iddo gyfathrebu a marchnata ei wasanaethau yn well. Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym, cyn iddynt weithio â Cyllid Cymru, nad oedd ganddynt fawr ddim ymwybyddiaeth ynghylch beth roedd Cyllid Cymru yn ei wneud, na sut roeddent yn rhan o'r mecanwaith cyllido, er roedd eraill yn teimlo bod Cyllid Cymru yn weladwy yn y gymuned fusnes. Clywodd yr Aelodau am yr anawsterau o ran cyfathrebu â phob busnes bach a'r berthynas gadarnhaol rhwng Cyllid Cymru a chwmnïau cyfrifyddiaeth, sy'n tueddu i weithredu fel broceriaid mewn trefniadau ariannu. Awgrymwyd bod llawer o fusnes Cyllid Cymru yn dod drwy atgyfeiriadau. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn beirniadu'r deunydd marchnata, gan awgrymu nad oedd yn gyfredol a'i fod yn aneglur o ran y meysydd y mae Cyllid Cymru yn eu cefnogi. Roedd y busnesau bach a chanolig yn pwysleisio bod angen i fusnesau sy'n cychwyn allu canfod yn hawdd beth sydd ar gael iddynt, a bod cael eu cyfeirio at y sefydliadau perthnasol yn wirioneddol bwysig.

Cyllid ar gyfer gwahanol fathau o fusnesau

Mynegodd rai cyfranogwyr bryderon ynghylch y meysydd sy'n cael eu hariannu gan Cyllid Cymru, ac awgrymu bod angen eu hadolygu. Mynegwyd pryder nad yw Cyllid Cymru yn ddigon hyblyg i ddelio â modelau busnes modern. Mynegodd busnesau bach a chanolig bryderon ynghylch diffiniad Cyllid Cymru o fanwerthu, ac na'i fod wedi'i adolygu i ystyried datblygiadau e-fasnach. Roedd cyfranogwyr o'r farn nad oedd Cyllid Cymru yn agored am yr hyn y mae'n fodlon buddsoddi ynddo, naill ai yn y manylion sy'n cael eu darparu neu mewn trafodaethau cynllunio. Gan symud ymlaen, awgrymwyd y dylai Cyllid Cymru ddechrau darparu cyllid sbarduno ar gyfer busnesau technoleg bach.

Hyd y broses

Roedd rhai pryderon ynglŷn â'r broses o gael benthyciad gan Cyllid Cymru. Dywedodd busnesau bach a chanolig wrthym fod y broses yn gallu bod yn rhwystr ac y dylai Cyllid Cymru ystyried cynnig rhywfaint o gymorth gyda'r broses o ymgeisio. Roedd Cyllid Cymru wedi cymryd mwy o amser i wneud penderfyniad na buddsoddwyr eraill, fel rhai mewn ecwiti preifat, ar gyfer cytundebau hybrid. Nid oedd hynny'n broblem i bawb, gyda rhai'n cydnabod bod angen proses diwydrwydd dyladwy ar gyfer dyrannu arian cyhoeddus. Awgrymwyd y gellid ystyried dulliau arloesol megis ceisiadau wedi'u recordio ar fideo, fel sy'n digwydd mewn cynllun sy'n cael ei redeg gan y Bwrdd Strategaeth Technoleg a



Llywodraeth y DU, a allai leihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn llenwi ffurflenni. Dywedwyd y byddai'n ddefnyddiol cael syniad cynnar ynghylch a fyddai hawl gennych i fenthyca, er mwyn osgoi cynhyrchu gwybodaeth fanwl cyn cael eich gwrthod. Roeddent o'r farn bod defnyddio cwmnïau cyfrifyddu yn aml yn helpu gyda'r broses am eu bod yn gallu rhoi cyngor ar y wybodaeth a ddarparwyd.

Mae angen adolygu cymorth ehangach Llywodraeth Cymru i fusnesau

Roedd consensws cyffredinol bod angen adolygiad ehangach o'r cymorth i fusnesau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Roeddent o'r farn bod angen dull strategol ar gyfer rhoi cymorth i fusnesau, ac nid swyddogaeth Cyllid Cymru oedd hynny.



Atodiad A

- Simon Buckley- Evan Evans Brewery
- Neil Cocker- Cardiff Start/Dizzyjam
- Warren Oscar Fauvel- Nudjed
- David Anthony- Chevler
- James Roberts- Grant Thornton LLP
- Anthony Bird- The Komodo Group
- Malcolm Duncan- Superod
- Dr Chris Tackaberry – Clinithink Ltd
- Clarissa Chambers
- Lindsay Hogg- Watts Gregory LLP
- David Jones- ICT Sector Panel
- Barry Pappin- Vita
- Dr Meirion Morgan- Meirion Morgan Limited
- Peter McGuinness- Chromogenics
- Gareth Kempson- Biomonde



Atodiad B

Themâu i'w trafod

- Sut mae'r galw am gyllid gan fusnesau bach a chanolig wedi newid ers y wasgfa gredyd yn 2008?
- Beth fu eich profiad gyda Cyllid Cymru?
- Pa mor dda mae'r cymorth ariannol a'r cyngor sydd ar gael gan Cyllid Cymru yn cymharu â darparwyr eraill (ee banciau)?
- Pa gymorth hoffech chi ei gael gan Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol?
- Pa mor dda y mae Cyllid Cymru yn mynd ati i hyrwyddo ei hun a'i opsiynau ariannu?

